



GWOBR



PENTREFWYR PYBYR!



HYRWYDDO

Tudalen 23

ECO'r Wyddfa

Rhif: 397

Mawrth 2012

Pris: 50c

Llundain pia' hi - nid Llanberis



Mae'n debygol na fydd Ras yr Wyddfa yn cael ei darlledu ar S4C eleni, a hynny er i bwyllgor y ras gcisio eu gorau i gydymffurfio a dymuniadau'r sianel.

Mewn cyfarfod brys o'r pwyllgor yn gynharach ym mis Chwefror, cafwyd ar ddeall nad oedd yn bosibl i S4C ddangos y rhaglen arferol ar benwythnos olaf mis Gorffennaf oherwydd mai dyma ddyddiad cychwyn y Gemau Olympaidd yn Llundain.

Er mwyn sicrhau fod y ras yn cael ei ffilmio a'i darlledu, penderfynodd y pwyllgor symud dyddiad y ras ymlaen wythnos, a hynny er cryn anhwylostod. Golygai waith cysylltu efo noddwyr y ras, efo cefnogwyr a'r rhai oedd

yn gwirfoddoli i stiwardio, ac efo athletwyr rhyngwladol oedd wedi cytuno i redeg ar y dyddiad gwreiddiol. Anfonwyd y wybodaeth am y newid dyddiad i wahanol gylchgronau rhedeg ac i'r wasg a'r cyfryngau.

Ond wedi'r holl waith ailwampio, daeth S4C yn ol a dweud nad oedd yn bosibl iddynt ddarlledu ar y dyddiad newydd chwaith. Ond roedd y sianel yn ddigon bodlon darlledu'r ras pe bai'r pwyllgor yn newid y dyddiad am yr eildro, a'i chynnal bythefnos cyn y dyddiad gwreiddiol.

Yn dilyn ail gyfarfod brys, penderfynodd y pwyllgor, er tegwch i'w noddwyr a'r athletwyr, i aros gyda'r 21ain o Gorffennaf, a hysbyswyd S4C

o'u penderfyniad.

Mae dyddiad Ras yr Wyddfa wedi ei bennu ers blwyddyn. Roedd Pwyllgor y Ras yn ymwybodol o'r ffaith ei bod hefyd yn gychwyn y Gemau Olympaidd yr un pryd, ond doedd hynny ddim yn debygol o atal rhedwyr rhag cystadlu, gan mai cystadleuthau nofio oedd ar raglen y Gemau Olympaidd ar y cychwyn. Siawns nad oedd S4C hefyd yn ymwybodol o'r dyddiad ymhell cyn mis Chwefror.

Mae Ras yr Wyddfa yn ddigwyddiad hynod bwysig a phoblogaidd yn y calendr chwaraeon, nid yn unig yng Nghymru, ond yn rhyngwladol. Eisoes eleni, mae timau o Ffrainc a Rwsia wedi penderfynu cystadlu. Yn

ol Stephen Edwards, Trefnydd y Ras, mae'n argoeli am gystadleuaeth gyffrous iawn.

Y trueni yw na fydd gwylwyr S4C yn cael rhannu'r cyffro hwnnw, fel yn y blynyddoedd diwethaf.

Gwta bythefnos wedi rhoi gwybod i Bwyllgor Ras yr Wyddfa na fyddai'r ras yn cael ei darlledu eleni, lansiodd S4C eu tymor newydd o raglenni ar Ddydd Gwyl Ddewi. Y slogan a ddefnyddir ganddynt yw "Calon Cenedl". Gyda Gemau Olympaidd Llundain yn cael blaenoriaeth ddiwedd Gorffennaf ar un o brif ddigwyddiadau chwaraeon Cymru, teg gofyn calon pa genedl?

ECO'r Wyddfa

**RHIF 397
MAWRTH 2012**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

YPWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Codd (870589)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Dodaafon, Ceunant (659799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Efyddon (871829)

PENISAKWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-ODD: Miss Anwen Parry,
Nant-y-Dryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (850870)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL 18 MAWRTH
Os gwelwch yn dda
Dyddiad Gosod
NOS IAU, 22 MAWRTH
Sefydliad Cofia Llanrug
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 29 MAWRTH

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU' RECO 2012

Rhifyn	Copi	Gosod	Plygu	Ble
Ebrill	18 Mawrth	22 Mawrth	29 Mawrth	Cwm y Glo
Mai	15 Ebrill	19 Ebrill	26 Ebrill	Deiniolen
Mehefin	20 Mai	24 Mai	31 Mai	Brynrefail
Gorffennaf	17 Mehefin	21 Mehefin	28 Mehefin	Bethel

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr,
Mae CLERA (Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru) ar
fin cyrraedd Llanberis! Dystiwch y delyn, tiwniwc eich fliwt a
thynnwch y ffidil o'r to!

Mae Clera wrthi yn trefnu rhaglen uchelgeisiol o weithdai gwerin
ar gyfer y flwyddyn nesaf dan yr enw Sesiwn Dros Gymru. Y
bwriad yw cynnal 40 gweithdy misol (hanner diwrnod) dros
gyfnod o flwyddyn, mewn 4 ardal wahanol (gogledd-ddwyrain /
gogledd-orllewin / de-orllewin / de-ddwyrain), sef 10 gweithdy
i bob ardal.

Y lleoliad ar gyfer cyfres y Gwanwyn fydd Amgueddfa Lechi
Llanberis. Dyddiadau y gweithdai yma yw: Dydd Sul 25 Mawrth
2012, Dydd Sul 22 Ebrill 2012 a Dydd Sadwrn 19 Mai 2012.

Bydd 3 dosbarth ym mhob gweithdy, ar gyfer gwahanol lefelau o
allu a phrofiad cerddorol ac mi fydd niferoedd wedi eu cyfyngu
i 10 mewn dosbarth. Bydd dosbarth lefel sylfaen arbennig gyda
Stephen Rees (Ar Log, Crasiant) yn canolbwyntio ar ddysgu sut
i chwarae o'r glust - addas iawn i offerynwyr clasurol sy'n newydd
i gerddoriaeth draddodiadol.

Y gost ar gyfer mynychu yw £7.50 y gweithdy, £12 am docyn teulu
a £5 gostyngiadau. Argymhellir cofrestru o flaen llaw oherwydd y
cyfyngiad ar niferoedd. Dewch am jig!

Am fanylion pellach cysylltwch a:

Catrin Meirion / Sesiwn Dros Gymru
(01286) 831344 catrin@sesiwn.org.uk
www.sesiwn.org.uk / www.clera.org

Eisteddfod Gadeiriol Bontnewydd

Pleser gan y Pwyllgor gyhoeddi y cynhelir yr Eisteddfod ar ddydd
Sadwrn olaf mis Ebrill bob blwyddyn o hyn ymlaen. Y dyddiad ar
gyfer 2012 yw Ebrill 28. Felly rhwch nodyn yn eich dyddiadur,
gystadleuwyr a chynulleidf, a dewch i fwynhau un o eisteddfodau
hynaf gogledd Cymru. Mae'r rhestr testunau eisoes ar gael.

Neuadd Glasgoed
Penisa'rwaun
LL55 3BB

Annwyl Olygydd

Blwch Llythyrau Diflanedig Tan y Gaer - sydd ar goll ers dechrau
mis Rhagfyr 2011

Y mae'r cyfryw flwch llythyrau wedi ei osod mewn man tra
defnyddiol, a gwn fod defnydd helaeth yn cael ei wneud ohono.
Holwyd y llythyr-gludwyr ynghylch ei ddislaniad dros nos, ond ni
wyddent unrhyw beth o'i hanes. Danfonwyd llythyr i bencadlys
Ddosbarthu'r Post, Cibyn, Caernarfon, ond o'r Ganolfan Gyswllt,
14 Llys Castan, Parc Menai, Bangor, y cafwyd ateb a datrys y
dirgelwch, diolch i Kelly Williams, Ymgynghorydd yno. Dyfynnaf
o'i llythyr 19fed Ionawr 2012:

'Gallaf gadarnhau fod y bocs wedi ei symud oherwydd roedd
y polyn wedi pydru - mae' a dyma'r newydd calonogol 'mac
cynlluniau yn eu lle i ailosod y bocs post, a gobeithiwn i hyn
fod wedi digwydd erbyn y gwanwyn,' ac ymddiheura Kelly 'am
unrhyw anhwylystod a achosir.'

Ysgrifennwyd ati i gadarnhau derbyn ei llythyr a phwysleisio
gwerth blwch llythyrau ar y groesffordd ger Tan y Gaer, plwyf
Llanddeiniolen. Rhaid gofalu fod y blwch llythyrau yn Nhan y
Gaer yn cael ei ddiogelu at ddefnydd ardalwyr heddiw ac yfory.

Dafydd Guto

Bellach, mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a'r Cyngorydd
Pat Larsen wedi cael atebion gan y Swyddfa Bost yn cadarnhau y
bydd y blwch llythyrau yn cael ei ailosod yn Nhan y Gaer, a hynny
cyn gynted ag y bo modd. (Golygydd)

RHODDION

£100: Eira Evans, Bron
yr Wyddfa, Ffordd
Glanmoelyn, Llanrug.

£20: Eira, Gwenno, Siwn
Ifan, Elis Arddu a Beca Mai
er cof am Geraint Morris,
Hafoty, Gwaun Cwm
Brwynog; Er cof am Elfyn
Thomas, gan y teulu.

£10.00 Gwyn Hefin ac
Ifanwy Jones, Rhandir,
Brynrefail

Ymchwil Teuluol

Yr wyf yn chwilio am
wybodaeth neu berthnasau
i berson oedd yn cadw Siop
Sglodion yn Neiniolen yn y
blynyddoedd rhwng 1950-60
o'r enw Fulcan neu (Vulcan).
Ar lafar yn Nefyn roedd yn
cael ei adnabod fel Dafydd
Llanbabo. Roedd hefyd yn
teithio llawer i'r America. Hen
lanc oedd Dafydd. Roedd gan
hen berthnasau iddo yn Nefyn
Sloop fechan o'r enw Vulcan,
eiddo i'r Capten John Hughes.

Anodd rhoi dyddiad penodol
i'r ail ymchwiliad; chwilio am
hanes dwy chwaer a fagwyd yn
Nefyn. Priododd y ddwy i dau
berson o Lanbabo: Catherine
Wynne, priod William
Robinson, Llanbabo, a Jane
Wynne: 1808: priod Richard
Roberts, Llanbabo. Nid wyf
yn sicr lle roeddynt yn byw,
Nefyn neu Deiniolen, neu ai o
Llanbabo Sir Fon oeddynt?

Os oes gan unrhyw berson
wybodaeth am yr uchod, os
gwelwch yn dda a fedrwch
gysylltu i mi, Arthur Williams
ar

Nefyn 01758 721449. neu
Brynarlais,
Y Fron, Nefyn, Pwllheli, LL53
6HU

PAWB I GANU

Caneuon i'r teulu, yn blant ac
oedolion.

Cerddoriaeth gan Edwin Lloyd
Jones, geiriau gan Dilys Baylis.
Bydd y llyfr ar werth yn Plas Pen
Gwaith, Cartref yr Henocd,
Maes Padarn, Llanberis,
ar brynawn Sadwrn, 17 o
Fawrth, rhwng 2-4 o'r gloch.
Pris y llyfr yw £7.00

COFIO DILYS CADWALADR

(1902-1979)

Mae bron i drigain mlynedd ers pan enillodd Dilys Cadwaladr Goron yr Eisteddfod Genedlaethol. Sawl un sy'n ymwybodol tybed fod y dystysgrif gyflwynwyd iddi ar yr achlysur arbennig hwnnw wedi bod yma yn lleol ers 1953?



Siop ar y groesffordd ger pont Penllyn a oedd unwaith yn Dyrpeg oedd ei chartref.

Daeth hi a'i rhieni yno o ardal y Ffor yn Eifionydd pan oedd yn blentyn ifanc iawn.

Sadler oedd ei thad yn hannu o Gricieth ac yn grefftwr gwyh ac roedd wedi adeiladu a'i ddwylo ei hun weithdy wrth ochr y siop. Ei mam, a oedd yn hannu o deulu plasdy Ty Coch, Caernarfon, a gadwai'r siop. Roedd y gweithdy yn gyrchfan i chwarelwyr lleol i ymdrin a phyncau athronyddol, llenyddol a chrefyddol. Yn anffodus yn ystod tridegau'r ganrif ddiwethaf, ymhen rhai blynyddoedd wedi i'r teulu adael, aeth yr adeilad ar dŵn.

Bu farw ei mam wedi gwaeledd blynyddoedd a Dilys ond yn un ar ddeg oed.

Meddai am Gapel Brynrefail yng nghyfnod ei phlentyndod:

"Y capel hwnnw oedd fy Mharadwys yn eneth fach eithaf trist".

Bu'n ddisgybl yn Ysgol Y Babanod, Brynrefail ac yn 1958 pan oedd yr ysgol yn dathlu ei hanner canmlwyddiant ysgrifennodd gerdd i'r plant dan y teitl "Dychwelyd" a chyfres o englynion "Y Fam" i'w cyflwyno i'r Ysgol. Yn un ar bymtheg oed yn dilyn ei haddysg yn Ysgol Sir Brynrefail, aeth i Goleg y Brifysgol ym Mangor.

I Nantgwynant yr aeth gyntaf fel prifathrawes a dychwelyd wedi cyfnodau yn Llundain i Brynengan, Eifionydd ac ysgol Llanfechain yn yr hen sir Drefaldwyn. Pan ddychwelodd drachefn i'r hen Sir Gaernarfon ac yn athrawes yn Ysgol Frondeg, Pwllheli, cyfarfu i'w phriod Leo. Yn dilyn marw ei thad aeth y ddau i fyw

Cyngor yr EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Hyn sydd i arwyddo bod

Dilys Cadwaladr (fils Schellinga)
yn fuddugol yn Eisteddfod
Genedlaethol y Rhyl 1953.
yng nghystadleuaeth rhif 3.

Prifysgrifwr Genedlaethol
Arwyddwr Genedlaethol
W. J. Williams
Cadeirydd
E. J. Jones
Ysgrifennydd
Dros y
Prifysgrifwr Genedlaethol
B. H. Jones
Cadeirydd
Edmund Williams
Ysgrifennydd

ar Ynys Enlli lle bu'n rhedeg yr ysgol yno ond pan oedd eu mab Sion yn seithmis oed ymadawsant i Nantbwylchyrheyrn yn ardal Geirionnydd. Treuliodd flynnyddoedd olaf ei hoes yn Rhoslan ac mae ei beddrod ym Mynwent Llanrug. Dros y blynyddoedd bu'n ymwelydd cyson a theulu Meillionen ym Mhenllyn, drws nesaf i gartref ei phlentyndod, a dod gan amlaf ar yr achlysuron arbennig yn ei bywyd.

Trwy gydol ei gyrfa, cyfrifid hi gan feirniaid llenyddol fel "un o ferched athryligar Cymru", "yn fardd gwreiddiol a chyffrous" a daeth nifer o wobrau eisteddfodol i'w rhan.

Ond yn 1953 pan enillodd y Goron yr Eisteddfod Genedlaethol - y ferch gyntaf i wneud hynny - am ei phryddest

"Y Llen" naturiol oedd i Gymdeithas Lenyddol Capel Brynrefail gynnal cyfarfod i'w hanrhydeddu. Trefnwyd y noson ar Hydref 30ain 1953 gan Rol Williams a'r diweddar John Morris a dyna'r pryd y cyflwynodd hithau ddarlun o'r Seremoni ar lwyfan Prifwyl y Rhyl i'r Ysgol Fabanod a'r Dystysgrif wreiddiol oedd yn nodi ei buddugoliaeth i Gapel Brynrefail. Dros y blynyddoedd edmygwyd y darlun a'r dystysgrif ar fur y Festri gan lawer un. Yn dilyn i'r defnydd o'r adeilad ddod i ben yn ddiweddar fel eiddo'r Eglwys Bresbyteraidd, diogelwyd y llun a'r dystysgrif.

Daethpwyd i'r penderfyniad nawr gan swyddogion yr eglwys mai doeth fyddai cyflwyno'r cyfryw i Ysgol Brynrefail, Llanrug i'w harddangos fel teyrnged i gyn-ddisgybl ymhlith eraill a enillodd un o brif wobrau Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Lowri Prys Roberts-Williams



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestrddig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnewid drwy Warant 3420271



G W Y N E D D

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

DIOLCH. Dymuna Iwan Wyn, Carlinig, ddiolch o galon i'w deulu a'i ffrindiau am y llu cardiaid ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 21ain yn ddiweddar.

CAPEL COCH.

Moli: Cynhelir oedfa Moli yn Capel Coch am 5.00 o'r gloch nos Sul, Mawrth 11, ac estynnwn wahoddiad i bawb ohonoch i ymuno â ni dan arweiniad aelodau iau'r eglwys. Oedfa Deulu: Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Mawrth 25. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH. Dymuna Buddug Wakeham ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd, y llu cardiaid a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Mrs Betty Humphreys, Nant, Coed y Ddôl, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau, blodau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch hefyd i bawb a alwodd yn y ty yn ystod y dydd, a'i wneud yn ddiwrnod bythgofiadwy. Bydd yr arian a dderbyniwyd yn cael ei roi i'r Clinig lleol tuag at gael 24 hour Blood Pressure Monitor. Diolch o galon i bawb!

LLYFR NEWYDD Mae llyfr newydd, PAWB I GANU, sy'n cynnwys caneuon i'r teulu, yn blant ac yn oedolion, gyda cherddoriaeth gan Edwin Lloyd Jones a geiriau gan Dilys Baylis, yn cael ei lansio ganol Mawrth. Bydd y llyfr ar werth yn Plas Pengwaith, Cartref

yr Henoed, Maes Padarn, Llanberis, ar brynhawn Sadwrn, yr 17eg o Fawrth, rhwng 2 a 4. Pris y Llyfr yw £7.

Y GYMDEITHAS

UNDEBOL Cafwyd noson hwyliog a braf yn y CWIS nos Fawrth y 14eg o Chwefror dan arweiniad y Parchedig John Pritchard. Roedd y cwestiynau o amryw bynciau. Rhannwyd y gynulleidfa yn ddwy, Tîm A a Tîm B. Tîm B a enillodd o rai marciau ond bu Tîm A yn protestio eu bod wedi cael cam!! Diolch i'r Cwis Feistr am baratoi mor drylwyr, a diolch hefyd i'r rhai a wnaeth y baned ar y diwedd.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar Nos Fawrth, Mawrth 13eg. Ar y noson hon byddwn yn ymweld â 'Meithrinfa Madarch' yn Nantmor, Beddgelert. Cawn wedyn baned mewn gwesty lleol a sgwrs gan Cynan Jones, Perchennog y Feithrinfa, ar 'Ffyngau Gwyllt'.

CYDNABYDDIAETH

Dymuna Eira, Gweno, Siôn Ifan, Elis Arddu, Beca Mai a holl deulu'r diweddar Geraint Morris, o Hafoty, Gwaun Cwm Brwynog, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, llythyrau, negeseuon a dderbyniwyd yn eu profedigaeth drist. Diolch i staff gweinyddu Ward Alaw am eu gofal arbennig ac i'r Parchedig John Pritchard am ei gefnogaeth yn ystod cystudd Geraint a hefyd am ei wasanaeth angladdol. Diolch hefyd i Dylan Griffith, Trefnwyr Angladdau, Tros y Waun, am ei drefniadau gofalus a thrylwyr

Gwobr Amgylchedd Cymru

Mae Geidwagedd o'r ardal wedi ennill gwobr Amgylchedd Cymru 'Gwobr Cymru Daclus 2011' ar gyfer Gwella Coetir.

Rydym wedi bod yn gweithio ar brosiect y Comisiwn Coedwigaeth 'Gwella Coetiroedd i Gymru' yn ystod y 4 blynedd diwethaf yn y coetiroedd brodorol hynafol o amgylch ein hostel a gwersyll gwyliau yng Nghaeathro.

Rydym wedi clirio'r 7 erw o lawryf anhreiddiadwy a mieri, creu 400 metr o lwybrau troed a chadair olwyn yn y goedwig a llwybr pren trwy'r ardal gorsiog sydd erioed wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen. Rydym wedi plannu dros 400 metr o blanhigion gwrychoedd a 50 o goed, clirio sbwriel o ffrwd ac ychwanegu ychydig o flychau nythu ar gyfer pryfed ac adar.

Mae'r wobwr gymaint i'n partneriaid ac y mae'n ni i a heb gymorth myfyrwyr Bagloriaeth Cymru o Goleg Menai a BTCV ni fyddem wedi gallu cyflawni cymaint yn yr amser a bennwyd ar gyfer y prosiect. Ni fyddwn wedi arbed ein coetir heb gefnogaeth

Amgylchedd Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, Cadw Cymru'n Daclus, Coed i Bawb a CSV sydd nid yn unig yn darparu arian tuag at y gwaith a'r offer ond hefyd wedi rhoi planhigion a choed, cyhoeddusrwydd a chymorth arbenigol fel y bo ei angen.

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys creu llwybr natur a mwy o flychau nythu yn ogystal ag ychwanegu cwrw cyfeiriannu ac adnodau i ddysgu am weithgareddau awyr agored eraill

www.girlguiding.caernarfonshire.org



- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar

**THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS**

with a view of the Wyddfa

Ffôn: **08444 119 003**

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rheolymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

GERAINT

Ffarwel i Fab y Mynydd

Daeth newydd trist i'r holl ardal yn ddiweddar gyda marwolaeth Geraint Rees Morris o Hafoty, Gwaun Cwm Brwynog, ddydd Gwener yr 20fed o Ionawr, yn 40 oed. Er mai byr iawn oedd ei fywyd mi lwyddodd o i'w fyw i'r eithaf ac mae'r amryw o atgofion pleserus sydd gen i, ei deulu a'i holl gydnabod ohono yn brawf o hynny. Mae wedi bod yn un o freintiau bywyd ei adnabod a mwynhau ei gwmni difyr a charedig.

Er o Ddeiniolen yn enedigol, Geraint Foty oedd o i bawb yn Llanberis. Cafodd ei fagu yn Cefn Coch ac yna symudodd gydag Eira, ei wraig, i Dy Capel Dinorwig cyn symud ac ymgartrefu yn y Hafoty yng Ngwaun Cwm Brwynog tua deng mlynedd yn ôl. Roedd o felly wedi treulio ei holl oes yn byw ar y llethrau.

Er mor odidog yw lleoliad y ffermdy, roedd symud yno yn glamp o benderfyniad. Roedd y ty'n prysur fynd yn adfail llwyr ar y pryd gan nad oedd neb wedi byw yno ers dros hanner canrif ac roedd y ffordd yno mewn cyflwr ofnadwy. Dyma, dybiwn i, yr unig dy yn yr ardal heb 'letterbox' gan fod yr eiddo hyd yn oed tu hwnt i wasanaeth y fan bost.

Ar ben hyn i gyd, doedd yna ddim trydan na llinell ffôn ac roedd angen ail-blastro'r tu mewn i gyd. Ond un penderfynol oedd Geraint ac roedd ganddo gynlluniau mawr ar gyfer y lle. Un o'r golygfeydd mwyaf cofiadwy i mi erioed oedd gweld y mwg yn codi o simnair Foty pan symudodd y teulu bach i mewn i'w cartref newydd.

Nid ty modern mohono. Doedd yna ddim drysau plastig ffals ond yn hytrach drysau derw go iawn gyda chlicied y clo yn agor drws i aelwyd anhygoel o gysurus a hapus. Doedd yna ddim lloriau wedi eu lamineiddio - ond lloriau

blociau pren go iawn wedi eu gosod yn hynod o gelfydd gan Geraint. Prif uchelgais Geraint o'r cychwyn oedd cael trefn ar y tirwedd a chadw'r hen le yn union fel ag yr oedd o flynyddoedd yn ôl. Roedd ganddo gynlluniau i ddacluso hen adeiladau amaethyddol y cwm, gweld gwartheg yn pori ar y ffridd a chael godro a chorddi yn ôl yr hen drefn. Roedd yn gas ganddo segura a doedd o ddim yn medru eistedd yn llonydd am funud. Dw i'n cofio fel yr oedd rhaid iddo aros gartref yn ystod tymor yr wyna llynedd am nad oedd o'n ddigon da. Roedd o'n methu'n glir â derbyn hyn.

Bugail oedd Geraint nid ffarmwr. Bugail hynod o dwt, gofalus, caredig a threfnus. Yn wir roedd o yn medru bod yn boenus o dwt a manwl ar adegau ac roedd rhaid i bob dim fod yn berffaith ... doedd 'neith o'r tro' ddim digon da. Roedd rhaid gwneud popeth y ffordd iawn ac nid y ffordd arall. Roedd ganddo'r ddawn i fedru troi ei law at unrhyw beth. Codi waliau, gosod llechi to, ffensio, gwaith saer, weldio ac yn y blaen. Dim gwahaniaeth beth oedd yn galw roedd ei osgo a'i osodiad bob amser yn drefnus a thwt.

Roedd o ac Eira wrth eu boddau yn y Foty. Y Foty oedd eu paradwys ac yno roeddynt yn mynnu bod bob amser. Roedd yn gas ganddo fynd i'r sêl ac ati. Roedd yn ei elfen yn nhawelwch y mynydd yn bugeilio ei braidd ac yn gofalu am y tir. Ond daeth tro ar fyd pan ddaeth y salwch blin i'w ran sawl blwyddyn yn ôl bellach. Er i ni gyfarfod neu gysylltu a'n



gilydd bron yn ddyddiol er hynny anaml iawn y byddai'n sôn am ei anhwylder, ac os oedd o'n gwneud roedd yn cyfeirio at y salwch fel 'yr hen beth ma'. Doedd o byth yn cwyno; hyd yn oed pan oedd ar ganol derbyn triniaethau a moddion di-ri, rhywfodd neu'i gilydd roedd o'n dal i fugeilio

ac wrthi'n brysur yn meddwl am syniadau newydd i Hafoty. Doedd pethau ddim wastad yn hawdd - fe gafodd Geraint ac Eira eu siâr o drafferthion efo'r awdurdodau wrth geisio cael hawliau cynllunio i wella eu ffordd o fyw ond fe lwyddont yn ei hymgais i greu cartref cysurus traddodiadol Cymreig. Ar y dechrau roedd ymweld ag Ysbyty Gwynedd yn hollol ddieithr i Geraint ac roedd o'n teimlo'n gwbl allan o'i gynefin yno. Fedra i ddim meddwl am ddau le mor wahanol, sef Hafoty yng Ngwaun Cwm Brwynog a'i dawelwch a'i olygfeydd tymhorol a phrysurddeb dyddiol Ysbyty Gwynedd ... neu yn fanylach cegin Hafoty a Ward Alaw. Ond wedi dweud hynny fe ddaeth i arfer a'i fynych ymweliadau â ward Alaw, gan ddiolch yn ddifffuant i'r staff gan ddweud sawl tro: 'mae'r genod ma yn dda efo fi.'

Roedd yn amlwg fod Geraint yn dipyn o ffefryn gan y nyrsys yn Alaw. Ni chyfaddefodd yr un nyrs hyn erioed ond doedd dim rhaid iddynt. Roedd hyn yn amlwg i bawb. Yr oll oedd yn rhaid iddo fo wneud oedd dangos y wên fawr 'na! Roedd ganddyn nhw feddwl mawr ohono.

Yn ystod y llynedd fe ddathlodd ei ben-blwydd yn ddeugain oed yn Ward Alaw, daeth llawenydd mawr wrth ddod yn daid i Jac bach pan oedd o yn

y ward a threuliodd y Nadolig yno gydag Eira a'r plant. Roedd yn gymeriad hynod o swil a boneddigaidd ac yn hynod o ddiolchgar am bob cymorth yn ystod ei gystudd. Dwi'n cofio fel y bydda fo'n diolch sawl gwaith i'r nyrsys ar bob achlysur. Diolchodd hyd yn oed i'r meddygon am roi'r newyddion gwaethaf posib iddo.

Y plant oedd ei fywyd ac yntau oeddeu harwrhwythau. Doedd dim byd yn ormod o drafferth i'r hen blant ac roedden nhw'n wastad ar ei feddwl.

Un o'r sgysiau amlaf gan Geraint oedd ei edmygedd a'i ddiolchgarwch o'i wraig Eira. Arhosodd yn driw wrth ei ochr trwy'r holl driniaethau yn Ward Alaw. Roedd hi'n teithio'n ôl a blaen i'r ysbyty'n ddyddiol ac yn dal i gynnal aelwyd hapus i'r plant. Gofalodd amdanynt er gwaethaf yr holl anawsterau gan hyd yn oed ofalu eu bod yn mynychu Ysgol Sul Capel Coch yn rheolaidd er gwaethaf yr holl drafferthion. Diolch i ti, Eira. Diolch mawr. Roedd y ddau yn deall ei gilydd i'r dim. Os bu yna ddau gariad erioed, Geraint ac Eira oedd rheiny... ac yn dal i fod, wrth gwrs.

Treuliodd ei oes yn byw ar y mynydd ac mae Geraint bellach wedi mynd ôl i'r mynydd yn nhir Cefn Coch, yn unol â'i ddymuniad, a mynyddoedd Eryri o'i gwmpas. 'Mi a ymdrechais ymdrech deg,' medd yr hen air. Do, fe ymdrechodd Geraint ymdrech hynod o deg, gonest a chywir. Roedd Geraint ofn i ddim un munud o'i amser fynd heibio heb iddo wneud ei ddyletswydd yn yr hen fyd yma.

Ffarwel i fab y mynydd. Bydd hiraeth anhygoel ar ei ôl ond hefyd llu o atgofion melys ... melys iawn.

Ken Jones

Blaen ddol



I Dafydd a Heulwen Morris
O'r 'Foty adref atoch - i orwedd
daeth Geraint, a rhoesoch
faen y cof uwch bridd Cefn Coch.
Richard Llwyd Jones

MERCHED Y WAWR

Dechreuwyd cyfarfod mis Ionawr drwy ganu Cân y Mudiad a chroesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd a ddymunodd Flwyddyn Newydd Ddaibawb. Anfonwyd cofion at rai o'r aelodau oedd ddim yn dda. Trafodwyd rhai o faterion y Mudiad ac yna croesawyd y cwpwl gwadd, sef Gwyndaf a Mair o Lanrug, a chafwyd noson hynod ddifyr a hwyliog ganddynt. Mair yn sôn am eu hymweliad â Phatagonia yn ddiweddar a Gwyndaf yng ngofal y sleidiau, oedd yn dangos y gwahanol lefydd yr oeddent wedi ymweld â hwy. Diolchwyd iddynt gan Helen a oedd ei hun wedi bod ar yr un daith. Y nos Wener canlynol aeth rhai o'r aelodau i'r gystadleuaeth Bowllo Deg i Ganolfan Glasfryn, y Ffôr, ond er na fu llwyddiant y tro hwn mwynhaodd pawb y noson yn fawr a dalier ati.

C Y M D E I T H A S UNDEBOL DEINIOLLEN.

Wrth groesau pawb i'r Gymdeithas, cydymdeimlodd Llywydd y noson, Y Cynghorydd Len P. Jones, I Mrs Meira Rowlands wedi marwolaeth ei gwr, Mr A.W. Rowlands. Anfonwyd cofion at Mrs Jennie Williams a Miss Betty Williams, y ddwy wedi cael damwain yn ddiweddar ond yngwellaerbyn hyn ac wedi dod adref o'r ysbyty. Roeddem fel Cymdeithas yn falch iawn o weld y Parchedig Idris Thomas a gobeithio y bydd o a Mrs Thomas yn ymgartrefu'n hapus yn Neiniolen.

Croesawyd Arwel Jones, Hogia'r Wyddfa, atom a chafwyd sgwrs ddiddorol, fel arfer, ganddo am y bardd a'r llenor o Lanberis, y diweddar T. Rowland Hughes.

Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mr J. Ll. Williams.

DR ROBERT FRASER WILLIAMS.

Yn cydyn yn ei gartref yn Sale, Swydd Caer, bu farw Dr R. Fraser Williams, yn 83 mlwydd oed. Gedy chwech o blant a phymtheg o wyrion. Du'r angladd yng Nghapel Cymraeg Altringham, lle roedd yn flaenor.

Roedd Fraser yn fab i Dr

Yn absenoldeb y Llywydd yng nghyfarfod mis Chwefror croesawyd pawb ynghyd gan Brenda, yr Is-lywydd, ac ar ôl canu Cân y Mudiad trafodwyd llawer o faterion y Mudiad. Hefyd penderfynwyd mai i'r Garddfôn, Felinheli, fydd yr aelodau yn mynd i gael cinio Gwyl Dewi. Da oedd gweld Ann yn ôl wedi bod yn Seland newydd a hefyd da deall fod y teulu yn iawn yno ac yn falch iawn o weld Nain.

Croesawyd y wraig wadd, sef Marion Hughes a oedd yn sôn am ei gwaith gwirfoddol yn Antur Fachwen ac hefyd yn yr India. Difyr iawn oedd ei sgwrs, yn enwedig gan fod Menter Fachwen yn ein hardal ni ac hefyd fod ganddynt gaffi yn y pentref. Gwledda fydd hanes yr aelodau yng nghyfarfod mis Mawrth pan fyddant yn dathlu Gwyl Ddewi.

John Williams a Mrs Hannah Williams. Magwyd Dr John yn Pen-y-Bwlch, Gallt y Foel ac, wedi derbyn ei addysg, aeth i Durtlang yn yr India fel meddyg cenhadol. Yno cyfarfu Miss Hannah Roberts o Benisarwaun ac yno fe'u priodwyd ac yno hefyd y ganed eu tri phlentyn hynaf, Robert Fraser, John a Haulwen. Ymhen amser, ymsefydlodd Dr John yn Llundain. Bomiwyd eu cartref yn Eppingdale yn ystod yr Ail Ryfel Byd yna buont yn byw yn Leytonstone ac yn addoli yng Nghapel Cymraeg Walthamstow. Roedd y plant (yn cynnwys Eilian erbyn hyn) yn Gymry pybyr ac yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Treuliodd Fraser tua pum mlynedd adeg y rhyfel yng nghartref ei fodryb, Alice, ei gwr J.R. Griffith, a'u merch, Elisabeth. Cafodd ei addysg yn ystod y cyfnod hwn yn Ysgol Brynrefail a chredaf mai yno y safodd y 'Senior'. Byddai'n mynychu Capel Cefn y Wauon gyda'r teulu a daeth yn gyntaf yn yr Arholiad Sirol un flwyddyn (a hynny yn y cyfnod pan oedd bri mawr ar yr arholiad hwnnw).

Chwith meddwl nad oes ond Eilian ar ôl o'r teulu galluog hwn.



LLEISIAU LLANBABS. Nos Sadwrn Chwefror 11eg, cafodd plant y cor gyfle i ganu mewn cyngerdd yng Ngwesty'r Eryrod, Llanrwst. Cafwyd noson hynod o ddifyr gyda chyfraniadau gan y plant yn ogystal I Lyndsey, Elfed Morgan Morris, Dylan Cernyw ac eraill. Cafodd y plant gyfle ar ddiwedd y noson i ganu gyda Lyndsey, Elfed a Dylan a mwynhaodd pawb yn fawr. Bydd ymarferion yn parhau rwan yn barod at y daith fawr i'r Wyl Ban Geltaidd yn yr Iwerddon ym mis Ebrill.

YSGOL GWAUN GYNFI

Rhodd arbennig er cof am Selwyn Iolen a Jean Parc Jones Ar brynhawn Mercher, Tachwedd 9fed, derbyniodd Mr Gareth Ll. Parry, Pennaeth yr ysgol, rodd arbennig iawn gan y bardd Dafydd Guto ar ran yr ysgol. Yn dilyn ennill cadair Eisteddfod Deiniolen ar Hydref 29ain, penderfynodd Dafydd Guto gyflwyno'r gadair Eisteddfodol, (Deiniolen a'r Cylch 2011) i Ysgol Gwaun Gynfi er cof am Jean Parc Jones a Selwyn Griffith. Bu Jean Parc Jones yn ysgrifenyddes tu hwnt o ddiwyd ac yn hynod o gymwynasgar i'r Eisteddfod leol a mudiadau lleol eraill am gryn flynyddoedd. Dymuna gofio hefyd y diweddar amryddawn Selwyn Griffith, cyn-Archdderwydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru, pêldroediwr o fri, llenor, beirniad eisteddfodau bychain a mawrion yn ddiwahân, a cholofnydd difyr a di-flino yn ardal Eco'r Wyddfa. Mae Dafydd Guto hefyd wedi cyflwyno dwy gyfrol o farddoniaeth Selwyn i'r ysgol. Mae'r bardd a'r llenor, Karen Owen, hefyd wedi cyflwyno ei llyfr Siarad trwy'i Het sef cyfrol o farddoniaeth a lluniau o'i heiddo i'r ysgol, eto er cof am Jean Parc Jones a Selwyn Iolen. Derbyniwyd trydydd rhodd i gofio am y ddau gan Gareth Roberts sef, llyfr Y Sêr yn eu Tynerwch - ffotograffau Gareth Roberts a detholiad o gerddi gan Myrddin ap Dafydd - y ddau wedi arwyddo'r llyfr.

Mac pawb yn yr ysgol yn ddiolchgar ofnadwy i Dafydd Guto, Karen Owen, Gareth Roberts a Myrddin ap Dafydd am eu caredigrwydd ac am y rhoddion gwerthfawr. Hyderwn y bydd darllen y cyfrolau yn esgor ar ychydig mwy o egin feirdd yn yr ardal. Yn wir, rhoddion anrhydeddus iawn i gofio'r ddau gymwynaswr bro a gwlad.

BOSCH Service
Car Service

www.a-y-w.co.uk
01286 673559

CIBVN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
GEIR, CAMPERA A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**

Parhad DEINIOLEN

FESTRI EBENEZER, DEINIOLEN

Dyddiau rhoddion

Prif bwrpas y festri, wrth reswm, yw bod yn lle i gynnal gwasanaethau eglwys Cefn y Waun, Ebenezer a'r ysgol Sul ond, yn ogystal, mae yn gartref i wasanaethau achlysurol eraill. Defnyddir yr adeilad hefyd fel Neuadd Bentref ar gyfer Eisteddfod, rhai gweithgareddau'r Seindorf, cyngherddau a gweithgareddau eraill i godi arian at wahanol anghenion.

Mae cost fawr i'w chynnal yn flynyddol ond yn ychwanegol at hynny mae'n rhaid bellach gosod gwresogyddion newydd ynddi a llwybr diogel y tu allan. Fel mae'r sefyllfa ariannol ar hyn o bryd bydd rhaid cau'r Festri o fewn tua tair blynedd. Ond gobeithiwn osgoi hynny, wrth gwr, a gwneud pob ymdrech i gadw a gwella'r adeilad.

Gwahoddir yr ardalwyr i gyfrannu at yr adeilad a bydd y Festri ar agor i dderbyn eich roddion os dymunwch:

Dydd Gwener, y 9ed o Fawrth, o 2 tan 4 y prynhawn;

a dydd Sadwrn, y 10ed o Fawrth, o 10 tan hanner dydd.

Dibynnwn ar eich cefnogaeth a'ch caredigrwydd.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys gyda Mrs Mcira Rowlands, Rhyddfalog, Kevin a Wendy a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth diweddar gwr, tad a thaid hoffus, Mr Arthur Rowlands.

Cydymdeimlir hefyd i theulu Mr Geraint Morris, Cefn Coch, a fu farw yn ddiweddar wedi brwydr ddewr. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch i gyd fel teulu yn dilyn y golled anferthol hon.

EISTEDDFOD YR URDD.

Dymunir pob llwyddiant i holl aelodau Aelwyd yr Urdd yn y pentref a fydd yn cystadlu yn eisteddfodau lleol yr Urdd dros yr wythnosau nesaf. Diolch i Lyndsey ac Eleri am yr holl waith hyfforddi a wnaed dros y misoedd diweddar.

GWELLIANT. Dymunir gwelliant buan i Betty Williams yn dilyn ei damwain ddiweddar, ag i unrhyw un arall o'r ardal a fu'n dioddef anhwylder yn ddiweddar.

MARWOLAETH. Ddau ddiwrnod cyn y Nadolig, bu farw Mr Ray Howells, 4 Gwyrfa Terrace gynt. Ymfudodd i Ferndale yn ne Cymru efo'i briod, Annie Eurwen, ar ol i'r chwarel gau a bu'n cadw Ty Capel Peniel yno. Yr oedd yn aelod o gor meibion Pendyrus ac yn gweithio yn y pyllau glo. Bu ei angladd yn Amlogsgfa Pontypridd. Gedy ddwy chwaer a mab, Bryn, a dau o wyrion, Oscar a Roxy. Cydymdeimlwn yn fawr i'r teulu yn eu galar a'u hiraeth.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Osian Trefor, 1 Bron Helen, Clwt y Bont, ar ei lwyddiant mewn gwahanol eisteddfodau yn ddiweddar. Yn Eisteddfod Chwillog daeth yn gyntaf am Lefaru, y Sadwrn canlynol aeth i gystadlu yn Eisteddfod Garndolbenmaen pan ddaeth yn fuddugol ar yr Unawd a'r Llefaru, Hefyd ernad yw Osian yn ddim ond saith oed enillodd wobr arbennig, sef rhodd Cor Meibion Dwyfor am y perfformiad gorau yn yr adran gerdd dan un ar bymtheg oed. Eisteddfod Trawsfynydd oedd y nesaf i Osian ymweld i hi a chafodd ddwy wobr gyntaf yn y fan honno hefyd, y naill am Ganu a'r llall am Lefaru. Da iawn chdi, Osian, a dalier ati.



Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys

Blodau
Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**

(ar agor 9am-5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products



Parperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Agea Cyfyngedig.
Parperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan
gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau
masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton,
Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SLO31616 11_1

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Corffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch **DYLAN** ar **01286 871800** (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL VR WYDDFA

Cythaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd **Rolls Royce**
AR CYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

CLWB BRO BETHEL Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, anfonwyd cofion at Myra Griffith a Gwyneth Hughes, y ddwy wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar ac yn gwella erbyn hyn yn dilyn cael dod adref o'r Ysbyty. Llongyfarchwyd Nancy Williams, Rhoslyn, ar ddod yn hen Nain a Luned Davies ar ddod yn Nain i Erin, merch fach Sioned a Jake. Dymunwyd yn dda i Nancy Williams, Bro Eglwys sydd yn disgwyl mynd i Ysbyty Gwynedd am lawdriniaeth. Croesawyd

Manon Ellis Williams a chafwyd ganddi sgwrs yn dwyn y teitl 'O'r Gogledd i'r De'. Bu allan am bum mlynedd yn Affrica o dan gynllun elusennol Charities Aid Foundation, ac yna i dde Korea am flwyddyn. Roedd yn ddifyr sylwi, wrth edrych ar luniau, sut oedd un yn pontio rhwng y cyfoethog a'r difreintiedig, a bod dim darpariaeth bwyd i'r plant yn yr ysgolion. Erbyn hyn mae Manon yn Brif Swyddog Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr sy'n helpu i wneud gofalu yn brofiad cadarnhaol. Diolchwyd iddi gan y Llywydd am rannu ei phrofiadau gyda'r aelodau.

Dathlu Gwyl Ddewi yng nghwmni plant yr Ysgol ar wahoddiad y Pennaeth a'r Staff fydd y cyfarfod nesaf a hynny ar bawn Iau, Mawrth 1af.



BETHEL AM BYTH

Tydi Clwb Pêl-droed Bethel ddim yn cael y tymor gorau ohoni. Ond, ar brynhawn Sadwrn ar ddechrau Chwefror, a hithau'n llawer iawn rhy oer i sêr maldodus y Cofis a Llanrug, gwelwyd tîm pentref Bethel yn brwydro yn erbyn yr oerni a thîm Prifysgol Bangor yng nghwpan Bob Parry.

Fel sydd i'w ddisgwyl ar y lefel yma, nid yw'n ddigon cael eich dewis fel cilydd y mae disgwyl i ti fod yn llumanwr hefyd. Yn ystod yr hanner gyntaf yr oedd Andrew Hughes yn rhedeg y llinell unig cyn i Hugo Moss lumanu'r ail hanner.

Yn disgwyl yn y cwt cilyddion yr oedd Lloyd Hughes Michael Owen a Darren Jones, cyn disgybl, yn eu cefnogi.

Colli eto o 4-2 fu hanes y gêm ond da yw gweld yr hogiau yn arwyddus i gefnogi'r tîm pentref.

ENNILL Y GALA NOFIO



MERCHED Y WAWR.

Nos Fercher, Chwefror 8fed, croesawyd nifer dda o'r aelodau gan ein Llywydd a chanwyd Cân y Mudiad gyda Glenys yn cyfeilio. Croesawyd yn gynnes iawn i'n plith Buddug Jones a'i chi tywys, Freya.

Cafwyd noson ddifyr yn eu cwmni ac fe gyflwynodd Buddug i ni gefndir o'r gwaith arbennig sydd yn cael ei wneud wrth hyfforddi a throsglwyddo ci tywys i'w berchennog newydd. Soniodd

rai blynnyddoedd ac sydd erbyn hyn wedi ymddeol. Cawsom wybod am y berthynas agos sydd rhwng Buddug a Freya a'u gofal am y naill a'r llall ynghyd â'u hanesion hwyliog, a'u mwynhad o deithio a cherdded. Diolchodd Glenys i Buddug am ddod i rannu ei phrofiadau â ni ac am ei gwaith amhrisiadwy dros Gymdeithas Cwn Tywys i'r Deillion.

Cydymdeimlwyd ac Anna Lewis a Sharon Owen yn eu profedigaeth o golli eu mam, sef Mrs Nancy Owen.

Llongyfarchwyd Iolo a Laura, mab Mair Price, ar eu priodas, gan ddymuno pob bendith i'r ddau.

Dymunwyd gwellhad buan i Lynwen yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolchwyd i Glenys ac Eirlys am gymeryd rhan yn y 'Distawrwydd Noddedig' ac ar eu llwyddiant yn cwblhau'r dasg ac i'r rhai a wirfoddolodd i wau ar gyfer arddangosfa a fydd ym mhabell y Mudiad yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Darllenwyd gohebiaeth yn ymwneud â'r Mudiad a thu

allan. Diolchwyd i Gwyneth am drefnu'r baned a'r raffl, i Mair a Rhian am baratoi ac i Buddug am ei rhodd at y raffl.

Cinio i ddathlu Gwyl Dewi Sant fydd nesaf, ar Fawrth 14, yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd.

C Y M D E I T H A S LENYDDOL UNDEBOL.

Un o blant Bethel oedd yn annerch yr aelodau mis Chwefror sef Dr. Angharad Price. Croesawyd hi a phawb arall gan y Llywydd, y Dr. J. Elwyn Hughes. Testun ei sgwrs oedd T. H. Parry Williams a chafwyd ganddi gipolwg ar ei yrfa gynnar a chanolbwyntio ar ddyddiadau pwysig o'i blentyndod hyd at 1920 pan gafodd ei benodi'n Athro yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Diolchwyd iddi am sgwrsio yn hynod o gartrefol gan Anne Elis, a diolchwyd i ferched y te gan y Llywydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mawrth 20fed, yn Festri Cysegr yng nghwmni Brenda Wyn Jones yn sôn am 'Streic Fawr y Penrhyn

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu billiau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

Newyddion y Capel.

Cynhelir y cyfarfodydd canlynol ym mis Mawrth:

Sul 4edd: 11:00 Ysgol Sul; 2:00 Gweinidog. (Ni chynhelir y Cyfarfod Blynnyddol fel yr hysbysebwyd ynghynt.)

11: Ysgol Sul

18: 10:00 Mr John H. Hughes; 11:00 Ysgol Sul

25: 11:00 Ysgol Sul

Gweinidog y Capel, fel rhan o Ofalaeth Glannau'r Seiont, yw'r Parchedig Marcus Wyn Robinson. Gellir cysylltu i fo trwy'r ffon ar 01248 671255 neu 07879 218503, ar e-byst marcuswyn@btinternet.com <<mailto:marcuswyn@btinternet.com>> neu trwy Swyddogion y Capel.

Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol ar ol yr Oedfa ar ddydd Sul, 6 o Fai. Bydd yr Adroddiad Blynnyddol ar gael cyn y Cyfarfod.


Blast o'r Past. Mae'r cyfryngau lleol wedi adrodd profiad trigolion Dyffryn Nantlle ar ôl iddynt weld fod bws o'r fro yn teithio i Awstralia - sef Tafarn o'r un enw ym Mhorthmadog. Felly mae gan drigolion Caethro bws sy'n mynd i'r 'Whiteways'. Pe baech yn disgwyl bws 20:10 o Safle B ym Mhenllyn, Caernarfon byddwch yn gweld y geiriau 'Whiteways' ar y sgrin gwybodaeth electroneg sy'n hysbysu amserau a phen draw teithiau'r bysus lleol. Gobeithio na fydd y bysus hwyr rhwng Caernarfon a Chaeathro yn dilyn yr un diwedd a chwmni 'Whiteways' a diflannu fel canlyniad i leihad yn y cymorth i weithredwyr at y dreth tanwydd a lleihad yng ngrat Llywodraeth Cymru at golledion bysus gwledig?

Hen Enwau. Teitl llyfr

newydd yw Hen Enwau o Arfon, Llyn ac Eifionydd. Brodor o Gaernarfon yw'r awdur, Glenda Carr. Mae'r llyfr yn llawn o drafodaeth ynglyn ag ystyr nifer mawr o enwau yn ac o amgylch Caethro. Y cyhoeddwr yw Gwasg y Bwythyn a'r pris £10.95 ceiniog. A oes cyfle am sgwrs i drigolion y fro yma?

Loches ar gyfer...? Un o gyfseusterau sy'n cael eu darparu gan Gyngor Cymuned Y Waunfawr yng Nghaeathro yw'r lloches i deithwyr bws i Gaernarfon. Yn anffodus ers cryn dipyn o amser mae'r strwythur wedi cael defnydd arall fel toiled cyhoeddus. Gofynnir i unigolion sy'n wybodus o enw(au) y sawl sy'n cam-dddefnyddio eiddo cyhoeddus - neu pryd mae'r drosedd yn digwydd - gysylltu â rhywun mewn awdurdod.

Ar ôl 30 mlynedd mae criw ffilm dogfen The Keep yn dod yn ôl i'r ardal. Bydd Stéphane Piter, arbenigwraig coluro'r ffilm a'r ffilmwr dogfen Stewart Buck yma o'r 6ed o Ebrill. Bydd y criw yn aros yng ngwesty Dolbadarn am yr wythnos ac yn falch o gyfarfod unrhyw un a gwybodaeth am y ffilm.



A oeddech chi'n gweithio ar y lift? Ydych chi'n adnabod rhain? Dewch i'r Dolbadarn neu cysylltwch a mi ar 01286 238495.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**


CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau - Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig



**GWYNANT
PIERCE**

**Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol**

**Uned 1, Ffarm Bryn Afon
LLANRUG**

**Ffôn: (01286) 674183
(0586) 889901**

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* **Cig o ffermydd lleol**
* **Partion rhwng 40 a 400!**
* **Cyda saws afal a stoffin mewn
rholiau**
* **Efo salad hefyd os dymunwch**

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
**JOHN BRYN AFON
LLANRUG**

YDWN AC - 675190 / 673188
Ffôn symudol: **07798 718188**
Gwefan: **www.mydyncig.co.uk**

SEFYDLIAD

MERCHED Pat Jones, y llywydd ac Anita Long oedd wedi trefnu'r cyfarfod nos Iau, Ionawr 19eg. Cafwyd cyfle gyda rhaglen 'Power Point' i fwynhau lluniau o weithgareddau'r gangen dros y flwyddyn ddiwethaf, yn eu mysg y daith gerdded a'r beicio ac uchafbwyntiau Sioe Amaethyddol Llanellwedd. Yn dilyn trafodwyd nifer o weithgareddau ar gyfer 2012 a chroesawyd tair aelod newydd i'r gangen.

Nos Iau, Chwefror 9fed cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Grwp Eryri yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis. Rhoddwyd adroddiad gan yr wyth Sefydliad sy'n rhan o'r Grwp am eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Croesawyd hefyd y Parch Marcus Robinson fel siaradwr gwadd ac fel un gymrodd ran yn y gyfres deledu 'Snowdonia

1890' i adrodd hanes y ffilmio. Mwynhawyd noson ddifyr a hwyliog yn ei gwmni. Cafwyd lluniaeth ar ddiwedd y noson wedi ei drefnu gan bwyllgor y Grwp. Llongyfarchwyd Pat Jones y llywydd ar gael ei hethol fel cadeirydd Ffedarasiwn SYM Gwynedd/Caernarfon. Fel llywydd lleol mae wedi bod yn frwdfrydig a gweithgar dros gyfnod maith yn ennyn diddordeb a chefnogaeth yr aelodau yn y gwahanol weithgareddau. Mae dymuniadau gorau y gangen yn mynd iddi.

Y Canon Idris Thomas oedd y gwr gwadd yng nghyfarfod nos Iau, Chwefror 16eg. Testun ei sgwrs oedd cysylltiadau â mis Chwefror. Aeth trwy gysylltiadau arbennig â seintiau gan gyfeirio at rai hanesion, englynion a dyddiadau pwysig yn ystod y mis, yn eu plith ddydd Mawrth Ynyd a dydd Mercher Lludw. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Ifanwy Jones.

CYDYMDEIMLO Trist

yw cofnodi marwolaeth Geraint Rees Morris o Hafoty, Gwaun Cwm Brwynog ac yn ddiweddar o 5 Minffordd wedi gwaeledd blin yn 40 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Eira Wyn a'r teulu ieuanc yn eu colled a'u hiraeth.

G E N E D I G A E T H Llongyfarchiadau i Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ar Chwefror 9fed ganed merch fach, Gwenno, i Catrin a Rhys a chwaer i Guto.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

OEDFA CYMUN Nos Sul Chwefror 5ed cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad y Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Balch hefyd oeddyd o nodi fod un o'n blaenoriaid, Bertie Roberts, Llwyncoed Bach wedi cael dod adref wedi nifer o wythnosau yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Ein dymuniadau gorau iddo.

LLYFRAU LLAFAR CYMRU Yn dilyn cais am gefnogaeth ariannol tuag at waith y Gymdeithas, balch oeddyd o dderbyn cydnabyddiaeth am ein rhodd i gefnogi'r cynllun sydd yn paratoi yn agos i 4000 o lyfrau ar gasetiau a chryno ddisgiau yn flynyddol yng Nghymru i ddeillion a'r rhai sy'n rhannol ddall.

LLYFR NEWYDD Fel un a dreuliodd rai blynnyddoedd yn ein plith ym Mrynrefail balch ydym o gyhoeddi y bydd detholiad o waith Dilys Baylis, Llanberis sydd ar drothwy ei chanmlwydd oed ar werth yn fuan. Teitl y llyfr yw 'Pawb i Ganu' ac mae'n cynnwys ei cherddi hi wedi eu gosod i gerddoriaeth ei diweddar frawd Edwin Lloyd Jones. Bydd y llyfr ar werth Ym Mhlas Pengwaith, Llanberis brynhawn Sadwrn, Mawrth 17eg rhwng 2 a 4 o'r gloch a'i bris yw £7.00.

OEDFAON MAWRTH

4	am 5.30	Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
11	am 2.00	Mr T Alun Williams, Caernarfon
18	am 5.30	Mr Charles Wyn Jones, Llanrug
25	am 5.30	Parch Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyd



'Sylla Eirlys yn bryderus ar sgrin ei chyfrifiadur.'

S4/C

Mae Sain Ddisgrifio ar gael yn Gymraeg ar nifer o raglenni S4C. Mae disgrifiadau o symudiadau a mynegiant yn rhoi bywyd i raglenni ar gyfer pobl sy'n cael trafferth gweld.

Am fwy o wybodaeth am ein gwasanaeth Sain Ddisgrifio cysylltwch â Gwifren Gwylwyr ar 0870 600 4141 neu ewch i s4c.co.uk.



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

CWMY GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon.
Ffôn: (01286) 872275

Llongyfarchiadau i Leon Radner, Ashville House ar ddathlu ei benblwydd yn 21ain oed.

Adref o'r Ysbyty. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Elfyn Evans, 1 Maes Gerddi yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

GWEFAN EFE

Mae gan Gynllun Efe wefan ers dwy flynedd bellach, ond mae wedi ei diwedddaru yn ddiweddar.

Mae'n ddigon hawdd dod o hyd i'r wefan ar www.cynllunefe.org. Neu fe allwch ddod o hyd iddi yn ddigon rhwydd trwy gwnglo 'cynllun efe'.

Cewch ar wefan hanes Efe a'r newyddion diweddaraf am y cyfarfodydd a'r gweithgareddau a drefnir. Cewch hefyd wrth gwrs yr holl fanylion cyswllt holl bwysig er mwyn trefnu neu holi am weithgareddau.

Ond un cyngor bach pwysig. Er bod llawer ohonom wedi hen gyfarwyddo erbyn hyn â chyfeirio at Efe a'i waith, gan wybod yn iawn mai sôn yr ydym am y genhadaeth Gristnogol hon i gyflwyno'r Efengyl i Fro'r Eco, nid yw Google mor gyfarwydd â'r fenter! Oherwydd os dywedwch wrth Google chwilio am 'Efe', fe gewch chi bethau fel Exclusive First Editions neu Export Furniture Expo. Ac os ewch chi i www.efc.org <<http://www.efc.org>> fe gewch chi wefan mudiad o'r enw Education for Employment!

Felly, cofiwch os gwelwch yn dda - www.cynllunefe.org amdani. Ond mi ddaliwn ni i sôn am 'waith Efe', gan obeithio y byddwch chi'n deall yn iawn mai am ein cenhadaeth leol ymhlith yr ifanc yr ydym yn sôn!

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

GWASANAETH GARDDIO OWEN

GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN GOED
GWAITH GLIRIO
PEINTIO

FFENSIO GERDDI A
FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO



07901648008

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

MARWOLAETH. Ar 20fed o Ionawr daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Geraint Morris, mab Dafydd a Heulwen Morris, Cefn Coch. Brawd hoff i Wil, John, Alwena a'i frawd ieuengaf, Dylan. Roedd yn briod annwyl iawn i Eira, tad hoffus Gwenno, Siôn Ifan, Ellis Arddu a Rebecca Mai a thaid annwyl Jac. Profedigaeth fawr iawn i'r teulu gan nad oedd Geraint ond deugain oed. Bu yn wael am tua wyth mlynedd a chafodd gystudd mawr ond, er pa mor wael ydoedd, bu yn gweithio trwy'r cyfan.

Bu ef a'i briod, Gwenno, yn cadw Ty Capel MC yma yn Ninorwig. Yr oedd yn ofalwr da ac yn barod ei gymwynas unrhyw bryd. Yn ystod yr amser yr oedd yr henaduriaeth eisiau cau'r capel bu iddo ef ac Eira gwfio hefo'r aelodau i drïo cadw y capel ar agor. Ar ôl ei gau bu iddynt symud i fyw i Hafoty ar ochr yr Wyddfa. Yr oedd wedi bod yn gweithio ar y ty yma ers rhai blynedd ond yn fuan iawn ar ôl iddynt symud fe dorrodd ei iechyd. Fe fu angladd Geraint ar 27 Ionawr dan ofal y gweinidog, y Parchedig John Pritchard.

Er iddo farw yn yr ysbyty bu i'w gorff gael ei gludo i'w gartref, Hafoty, lle y bu gwasanaeth i'r teulu. Cafwyd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Coch, Llanberis, ac yr oedd y capel yn orlawn o deulu a ffrindiau wedi dod i dalu'r deyrnged olaf iddo, y rhan fwyaf hefo deigrin yn eu llygaid. Ar ôl y gwasanaeth cafodd ei gladdu ar dir Cefn Coch, lle bu i Geraint gael ei ddwyn i fyny pan yn blentyn. Mae ein cydymdeimlad yn fawr hefo Eira a'r plant, a'i dad a'i fam, Heulwen a Dafydd a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth yn ystod y dyddiau tywyll yma. Gobeithio y cewch nerth ac iechyd oddi uchod, gan fod Duw gyda chwi yn y storm fel ag yn yr hindda, ac fe'ch cynnal a'ch ceidw. Pob Bendith arnoch fel teulu.

P E N - B L W Y D D .

Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, sydd yn cartrefu ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis ar ddathlu ei phen-blwydd yn 93 oed yn ystod y mis. Deall nad ydych wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar; gobeithio eich bod yn gwella a'ch bod wedi gallu mwynhau eich diwrnod mawr.

E. LL. PARRY M.S.S.CH M.B.CH.A

CHIROPODIST BPC COFRESTREDIG

GWASANAETH
YN EICH CARTREF

Ffôn LLANRUG
675754

CYNGERDD i Achub (neu i Gau) REHOBOTH




Nos Wener Mawrth 30ain am 7pm
Yng Nghapel REHOBOTH Nant Peris

★ *Gyda* **Iona ac Andy** ★
Caneuon Armenaidd Gan Seda Cox (Wolverhampton)

Mynediad am ddim ond gwneir casgliad
Unrhyw elw at ORRAN (elusen sy'n helpu plant di-gartref yn Armenia)

I DDILYN- GWEDDI DROS FERTHYRON ARMENIA A CHYMRU CAN ESGOR VAHAN.
PENNAETH YR EQLWYS ARMENAIDD YN NGWLEDYDD PRYDAIN - ANNERCHAD GAN-MRS. KARINE KAZINIAN
Llysgennad Gweriniaeth Armenia Ym Mhrydain- Ara Krikorian, Gaerfaddon (un o Sefydlywyr ORRAN)



JOHN BISHOP

Beth sy'n well, dwad, na bod ar gwrs Cymraeg yn Galeri, gyda Ms Lowri Wyn Roberts, a chael cyfle yn ystod yr egwyl i gwrdd y digrifwr enwog, John Bishop. Yn ôl Llio Emyr, Ild Jones, Ffion Erin ac Elain Roberts, yr ateb yw -'DIM'



RHODD NORWEDIG

Gleeni Jones, Gwen Thomas, Ffion Wyn Roberts a Catrin Williams yn derbyn y siec gan Gareth Price Rheolwr, Londis Llanrug.

Yr ydym i gyd yn ddiolchgar iawn i Gareth Price a staff Londis Llanrug am gynnal noson caws a gwin er codi arian tuag at gronfa'r Ysgol, yn benodol, Parti Pendalar. Cyflwynodd Gareth y siec i aelodau'r pwyllgor fu'n gyfrifol am gasglu tuag at y gronfa a threfnu'r parti eleni.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”

Gwasanaeth Coffair Holocaust




Cynhaliwyd y gwasanaeth i goffau'r Holocaust yn Neuadd Powis, Prifysgol Bangor, ar ddydd Gwener 27ain Ionawr 2012. Cafwyd cyfraniadau gan ddisgyblion o'r holl ysgolion uwchradd. Cynrychiolwyd Ysgol Brynrefail gan y prif ddisgybl, Gethin Griffiths, a ddarllenodd hanes Martha Blend, merch ifanc 8 oed a oroesodd gael ei charcharu yn Buchenwald, er iddi golli gweddill ei theulu.

Mewn gwasanaeth dwys cafwyd cyfraniadau ychwanegol gan Yr Athro Emeritws Gwyn Thomas a llafariad yn Kaddish gan Yr Athro Stephen Stern, Coleg Gettysburg.

Y CLWB DARLLEN

Mae myfyrwyr y chweched dosbarth wedi hen arfer cael Mam neu Dad i ddarllen stori iddynt cyn iddyn nhw fynd i gysgu. Ond ar fore dydd Mercher maent yn cael bonws. Yn ystod amser cofrestru y mae rhai disgyblion o flwyddyn 7 yn rhoi o'u hamser prin i ddarllen stori foreol iddyn nhw. Yn fuan iawn y mae'r Llyfrgell yn llawn o fwrlwm lleisiau isel ac y mae myfyrwyr y chweched yn brwydro am le ar gyfer y fraint.

Cofiwch, mae 'na waith eu deffro nhw wedyn ar gyfer eu gwers gyntaf!



Charles Wyn Jones yn sefyll am y Cyngor eto

Mewn cyfarfod o Gangen Plaid Cymru Llanrug cyn y Nadolig, cafodd Charles Wyn Jones ei ddewis fel ymgeisydd swyddogol Plaid ar gyfer etholiadau lleol Cyngor Gwynedd sydd i'w cynnal ar Fai 3, 2012.

Yn ôl Cadeirydd Cangen Llanrug, Phyllis Ellis: 'Ni ddaeth enw arall ger bron a chafodd Charles Wyn Jones ei ethol yn unfrydol gan y Gangen.'

Mae Charles wedi cynrychioli'r pentref fel Cynghorydd Cyngor Gwynedd ers 1996.

Meddai Phyllis, 'Ers yr etholiad diwethaf yn 2008 mae Charles wedi gweithio'n ddygn iawn ar ran trigolion y pentref a'r gymuned. Bu'n gefnogol iawn i sicrhau arian tuag at bob math o brosiectau er budd y gymuned. Yn eu mys Dosbarthiadau Newydd i'r Ysgol Gynradd, Neuadd Newydd Band Llanrug, a chychwyn ar wella palmantau stadau tai'r pentref.

Yn ôl Charles Wyn Jones: 'Mae hi wedi bod yn ffrainc cael

cynrychioli fy mhentref ers 1996. Mi faswn wrth fy modd yn cael fy ail-ethol ar Fai 3 gan fod llawer mwy o waith i'w wneud. Dwi'n awyddus i sicrhau digon o arian i gyflogi athrawes ychwanegol yn yr Ysgol Gynradd, gan fod nifer y disgyblion yn parhau i gynyddu. Hefyd, pan ddaw cais cynllunio i ddatblygu Cae'r Eglwys, byddaf yn sicrhau fod unrhyw gynllun yn gwella problemau Ffordd yr Orsaf, Y Sgwâr, a diogelwch ein plant ger yr ysgol. Rwyf hefyd am weld mwy o dai fforddiadwy yn y pentref a hefyd tai addas ar gyfer yr henoed; ond mae'n rhaid sicrhau fod y pentref ddim yn cael ei or-ddatblygu. Mae digon o gynlluniau a syniadau ar y gweill, a'r cyfan er mwyn sicrhau bod Llanrug yn parhau yn ardal braf a diogel i drigolion fyw a gweithio ynddi.

Ychwanegodd: 'Diolch i bawb am eu cefnogaeth dros y pedair blynedd diwethaf ac, os mai dymuniad pobl Llanrug yw i mi barhau i'w cynrychioli ar Gyngor Gwynedd, baint o'r mwyaf fydd gwneud hynny.'

Charles Wyn Jones, Dwyrws, Llanrug - 01286 676733

DOSBARTH DERBYN,

Ysgol Gynradd. Hoffai staff a phlant y dosbarth ddiolch yn arw i'r canlynol am eu cymorth i'r plant gael dysgu beth sydd yn mynd ymlaen yn y Gymuned: P.C. Edwards o'r Heddlu; Mrs Buddug Jones a Freya y ci tywys ac i Filfeddygfa Cibyn am ganiatau i'r plant ymweld â hwy. Diolch yn fawr.

DYMUNA aelodau Pwyllgor Apêl Llanrug a Chwm y Glo (Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Eryri 2012) ddatgan eu diolchgarwch i bobl y fro am gyfrannu tuag at yr apêl dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi casglu £9,000 o fewn blwyddyn ac yn dri chwarter ffordd tuag at gyrraedd y targed o £12,000. Pe dymunai unrhyw un gyfrannu mwy mae croeso iddynt gysylltu â Mrs Meirwen Lloyd ar 675359.

YSEINDORF. Bydd Seindorf Arian Llanrug yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Cymru, yn Neuadd Brangwyn, Abertawe, ddydd Sadwrn, 17 Mawrth. Bydd

bws yn gadael Llanrug am 6.30 y bore ac yn dychwelyd yr un diwrnod. Bydd lle ar y bws i gefnogwyr neu i rai sy'n dymuno ymweld ag Abertawe. Rhagwelir y bydd oddeutu 6 awr ar gael i'w dreulio yn y ddinas. Y gost fydd £15. Am fwy o fanylion cysyllter â Mike Thomas ar 675084.

Bydd y Band yn cynnal Diwrnod Golchi Ceir a stondin gacennau yng Nghartre'r Band, Ffordd Glanmoelyn, rhwng 9 a 4 o'r gloch ddydd Sadwrn, 31 Mawrth. Y gost fydd £5 y car, yr elw tuag at gostau teithio i'r gystadleuaeth.

PRIODAS AUR. Llongyfarchiadau mawr i Selwyn ac Anwen Morris (Gwenmon, Ffordd Bethel) gynt a fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar 31 Mawrth. Dymuniadau gorau a llawer o gariad oddi wrth Siwsan, Neil, Shane a Kazia.

PROFEDIGAETH. Estynnwn cin cydymdeimlad diffuant at Alwena a John Jones, Corlan y Rhos, yn eu profedigaeth o golli Geraint,

brawd Alwena. Mae ein cofion hefyd yn ymestyn i'r rhieni, brodyr a chwiorydd a'r holl deulu yn ardal Dinorwig.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant Mis Ionawr: 1. Mrs J. Jones, 4 Disgwylfa Terr; 2. Mrs J. Jones,

4 Disgwylfa Terr; 3. Sharon Owen, 56 Bro Rhyddallt.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant Mis Chwefror oedd: 1. Meryl Green, Anedd Wen, Pontrug; 2. Gwyn Hefin Jones, Rhandir, Brynrefail.

CAPEL Y RHOS. Ddechrau mis Chwefror, yn ystod oedfa'r bore, bedyddiwyd Ifan Rhys, mab bach Iwan a Heledd, Pen y Cae, a brawd bach i Sara. Gweinyddwyd gan ein gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson a'r organydd oedd Mair Lloyd Hughes. Roedd Ifan yn dathlu ei ben-blwydd cyntaf ar yr un diwrnod ac fe ganwyd Pen-blwydd Hapus iddo.

OEDFAON MIS MAWRTH.

- 4: Y Gweinidog a gweinyddir y Cymun
- 11: Dr H. Tegid Roberts
- 18: Y Gweinidog
- 25: Parch Ddr. Geraint Tudur.

PÊLBONWS APÊL YRURDD.

- Dyma'r enillwyr diweddaraf:
 - Ionawr 21: Rhif 19 - Jean Williams, Minffordd;
 - Ionawr 28: Rhif 1 - Tomos Llwyd, Glasgoed;
 - Chwefror 4: Rhif 46 - Gwenan Jones, 7 Ffordd Glanffynnon;
 - Chwefror 11: Rhif 6 - Hefin Jones, Pant Mwyn;
 - Chwefror 18: Rhif 24 - Jennifer Thomas, 48 Glanffynnon.
- Diolch i bawb am gefnogi'r apêl dros y flwyddyn ddiwethaf.

ARVONIA



- Gwylliau Prydeinig a Chyffandir.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud i archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digymddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk



Seindorf Arian Llanrug

DIWRNOD

GOLCHI CEIR

YN LLANRUG

Dydd Sadwrn 31 Mawrth
Rhwng 9 a 4 o'r gloch
• Yng Nghartre'r Band, ffordd Glanmoelen
Stondin gacennau a phaned o dc ar gael!

PRIS
£5
Y CAR

YR ELW TUAG AT
GOSTAU CYSTADLU YM
MHENCAMPWRIAETH
BANDIAU PRES CYMRU



MERCHED Y WAWR

Cychwynnwyd y noson drwy ganu Cân y Mudiad. Darllenwyd llythyr o ddiolch gan Margaret Parry wedi ei thriniaeth yn ddiweddar a dymunir gwellhad buan iddi. Diolchir i bawb fu'n barod i helpu yng Nghaffi'r Eisteddfod Cylch ar 25 Chwefror a diolchir hefyd am gyfraniadau at y caffi. Llongyferchir y gangen ar ddod yn ail yn y Bowllo Deg - a phob dymuniad da i'r tîm ym Mehefin. Mae aelodau o'r gangen eisoes wedi anfon enwau Cymraeg 'tai, ffermydd a chaeau' ond os oes gan unrhyw un ragor o enwau, y dyddiad cau yw 1 Mawrth - does dim gwahaniaeth pa fodd y byddant yn cyrraedd y ganolfan, e.e. e-bost, mewn llythyr ayyb.

Un o brosiectau'r Llywydd Cenedlaethol eleni yw casglu allweddi ac fe fydd yr elw'n mynd tuag at y Mudiad. Os oes unrhyw un gyda rhai nad ydych yn eu defnyddio bellach, dowch â nhw i'r cyfarfodydd.

I chwi adarwyr, atgoffir chi fod Blychau Adar neu ystlumod ar gael am £5, wedi eu hadeiladu'n union â gofynion y Cynllun Glastir gan weithwyr busnes cymunedol Dwr Cerist, ger Dinas Mawddwy. Os am archebu eich blychau ffoniwch 01660 531201 neu 07917135905.

Y mae Canolfan Therapi Plant Cymru yn cynnal gweithgaredd 'Pobi dros Bobath' o'r 1 i'r 8fed

o Fawrth, sef pobi teisennau cri i wneud gwahaniaeth i blant yng Nghymru. Drwy werthu'r teisennau cri yn ystod Dydd Gwyl Dewi gellir gwneud gwahaniaeth i dros 350 o blant sydd â pharlys yr ymennydd. Gellir cael mwy o wybodaeth a syniadau o www.bobathwales.org neu neges e-bost fundraising@bobathwales.org neu ffonio 02920 522600.

Mae Cwmni Da wrthi'n paratoi cyfres o raglenni i'w dangos ar S4C yn adrodd hanes yr Ail Ryfel Byd trwy eiriau y Cymry fu'n ymladd ynddo ac yn byw drwyddo. Os oes gennych unrhyw luniau, llythyrau, dyddiaduron Cymraeg yn adrodd hanes y cyfnod 1939-45 a fuasech garediced â chysylltu â Cwmni Da, Cae Llenor, Lôn Parc, Caernarfon neu ffonio 01286 685300, e-bost; maliparry-jones@cwmnida.tv.

Cynhelir Pantomeim Clybiau Ffermwyr Ifanc yn Venue Cymru, Llandudno ar 11 Mawrth - bydd perfformiadau Cymraeg a Saesneg. Cynhelir Gwyl y Pum Rhanbarth ar Sadwrn, 12 Mai yn Ysgol Friars, Bangor. Bydd cyfle i glywed Côr y Boncathod, Iwan Price, Fferm Ffactor, Cynan Jones a'i Ardd Fadarch ac eitemau cerddorol eraill.

Y mae diddordeb mawr gan rai o aelodau'r gangen o gael ymweld â Sempringham i weld bedd Gwenllïan. Ar 30 Mehefin

mae Seren Arian yn cynnig pecyn teithio gyda dewis o westai, cyfle i ymweld â thref neu ddinas o ddiddordeb, ac yna ar y Sul ymweld â'r gofeb. Mae'r pris yn cynnwys un noson - cinio, gwely a brecwast a thaith mewn bws moethus. Os gellir cael rhif o ifyrru cynulleidfaoedd drwy sôn am ei hen daid, Morris Evans, oedd yn byw yn Llan Ffestiniog.

Roedd Morris yn un o 12 o blant a chychwynnodd weithio yn y chwarel yn bymtheg oed. Yn dair ar hugain oed agorodd siop yn Llan, sef Liverpool House. Yng nghefn y siop roedd sied fawr ac yno roedd yn gwneud yr olew meddyginiaethol - olew i wella pob cur mewn pobl ac anifeiliaid. Roedd Morris yn berchen calon fawr, daeth ar draws meddyg o Lincoln heb ddimai goch y delyn ac fe roddodd Morris bres iddo a thrwy'r post yn ddiweddarach derbyniodd gynhwysion yr olew oedd i wella bob cur! Bu'n garedig iawn wrth drempyn tlawd hefyd am flynyddoedd ac i ddiolch iddo rhoddodd y trempyn ddarn o bapur bratiog iddo gyda chynhwysion yr olew arno. A dyna gychwyn taith yr olew amhrisiadwy. Olew Morris Evans am 1/6c y botel!

Byddai'n mynd o gwmpas y pentrefi yn ei werthu, a byddai'n derbyn llythyrau yn

canmol yr olew o bob rhan o Gymru ac, yn ddiweddarach, pob rhan o'r byd. Bellach byddai'n hysbysebu'r olew rhinweddol hwn drwy bosteri, bagiau papur, poteli gyda hysbysebion bachog, bocsys bach crand, cardiau post a samplau am ddim - doedd dim dal, ar ôl rhwbio Olew Morris Evans byddai'n gwella'r fogfa, bronchitis, fflw, anwyd, cryd cymalau, lymbego, neu unrhyw anhwylder bron mewn pobl ac anifeiliaid. Y mae'r cynhwysion yn dal yn gyfrinach gan y teulu ond gwyddom fod linseed, turpentine, sulfuric asid a photasiwm ynddo Bu Morris Evans farw yn 1925 yn 65 mlwydd oed ond mae sôn am ei olew yn dal yn fyw yng nghof nifer o bobl.

Diolchwyd i Gwilym am orig hynod o ddifyr ac addysgiadol a phetai ganddo nifer o boteli ar werth ar y noson, buasai pob un o'r aelodau wedi prynu un achos: 'Nid oes glwyf na all ei wella.'

Enillydd y raffl oedd Ann, Penisarwaun, a diolchwyd i Olwen, Margaret, Linda ac Eirianwen am y baned. Byddwn yn dathlu Gwyl Ddewi nos Fawrth, Mawrth 10fed. Byddwn yn bwyta am 6.30 a gadael am 9.00



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286) 650552 Mob. 07712779475

CERIS JONES

Teglan,
Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsie seir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr Wyl lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWGH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Un funud fach ...

LLYGREDD Y LLYN

Wedi blynyddoedd o drafod a dadlau cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad i'r llygredd yn Llyn Padarn a effeithiodd yn ddifrifol ar bysgod y Llyn, ac yn benodol ar y torgoch sy'n unigryw iddo. Mae'r adroddiad hwnnw, fel y clywyd ar y rhaglen 'Manylu' ar Radio Cymru'r noson o'r blaen, yn cadarnhau mai'r gollyngiadau carthffosiaeth sy'n bennaf cyfrifol am y llygredd. Gobeithio y gwneir popeth angenrheidiol i ddatrys y broblem er mwyn gwarchod y Llyn ac achub y torgoch.

Yn aml iawn, fe gysylltw'n ni lygredd i rhannau eraill o'r byd, ond mae'r achos hwn yn ein hatgoffa mor rhwydd y gellir difrodi ein cynefin ninnau. Felly, diolchwn am ddyfalbarhad y cyfeillion sydd wedi mynnu tynnu sylw at y broblem hon, ac sydd trwy hynny'n ymdrechu i warchod un darn arbennig o greadigaeth Duw. Clywn yn aml am ddifodiant gwahanol rywogaethau ar draws y byd, a byddai'n drasiedi ac yn gywilydd os caniateir i rywogaeth arbennig o bysgod gael ei golli am byth o ddyfroedd Llyn Padarn.

Mae gwarchod y greadigaeth yn rhan o'n cyfrifoldeb fel pobl. Ac yn aml iawn, yn ein hymateb i un peth bach y gwnawn ni hynny. Gallwn siarad am amddiffyn y blaned, ond mae'n rhaid troi'r siarad hwnnw'n weithredu wrth ein traed. A thybed nad oes gyfle i ni yn lleol wneud ein rhan fechan dros y torgoch trwy bwysu ar yr awdurdodau, a Dwr Cymru'n benodol, i wneud popeth posibl er mwyn ymateb i'r adroddiad hwn? Pwyswn arnynt i wneud pob dim angenrheidiol er sicrhau na fydd gollyngiadau carthion yn llifo i ddyfroedd y Llyn, fel y gellir arbed y pysgodyn prin (heb sŵn am warchod y Llyn er budd y bobl leol a'r ymwelwyr a ddaw yma i'w fwynhau).

Ac wrth i ni weld yr ymgyrch hon i achub un pysgodyn yn nhermau gwarchod rhan o greadigaeth y Duw byw, mae'n bosibl y deawn yn fwy penderfynol o ymgyrchu dros amddiffyn gweddill y greadigaeth honno. Ac o wneud hynny, mae'n bosibl y deawn i werthfawrogi harddwch a rhyfeddod y greadigaeth o'r newydd. Yn bwysicach fyth, gobeithio y deawn i barchu, a hyd yn oed i garu, lluniwr y greadigaeth.

Ond fe gawn y cymhelliad cryfaf i'w garu yn yr Efengyl sy'n dweud fod Duw, yn Iesu Grist, wedi mynd i'r afael i'r llygredd mwyaf un, sef y budreddi sydd ynom i gyd ac sydd am ein difa'n derfynol a thragwyddol. Fe dalodd Iesu bris mwy o lawer na'r miliynau o bunnoedd y bydd rhaid eu gwario i ddatrys argyfwng Llyn Padarn. Ac mae'n haeddu ei garu am dalu'r pris hwnnw.

JOHN PRITCHARD

Tri Chlogwyn

Wrth libart fy nghartref ar lethrau Fach-Wen
tri chlogwyn garw a gyfyd eu pen.

Mae Brenhines yr Wyddfa - rhwng dau fryn,
Bigil, a Chraig i'r Undeb draw ym Mhen'llyn.

Daeareg y creu ydyw seiliau'r rhain
ac oesau o naddu gan rewlfoedd main.

Ond bu cysylltiadau eraill, - cyn co'
nyddu eu hanes yng ngwerin y fro.

Cyn-Gambraidd yw mater Creigiau Pen'llyn
ond pwysicach na hynny'r sôn fan hyn

am strygl chwarelwyr yn mynnu eu hawl,
a thegwch haeddiannol er llach pob diawl.

Rhwng Tryfan a'r Derlwyn mae'r Clogwyn Mawr
ac ynddo mae proffil mor landeg â'r wawr,

clasur o wyneb fel 'Helen' y lle
yn denu i'w weld - a'u dal yn ei gwe

y sgriblo hinsawddol ar figyrnau'r bryn;
awgrym yw'r cyfan a'i phrydferthwch syn...

Yn gwarchod yr ardal eto mae un
amlwg i bawb - fel Promithiws ei hun...

Dyma 'Y Bigil' - lle'r gigfran a'i thras
a defaid mentrus i'w rhyw flewyn glas...

Bu bardd braint a defod - Iolo a'i lu
yma - yn ôl sôn - ar y clogwyn cry'.

Roedd ar Gymru angen defodau 'nghlwm
â chrud diwylliant yn lle'r mwllwch llwm,

ond erbyn heddiw gwyddom mai myth
'r haul-llygad-goleuni erys hyd byth.

Tri chlogwyn roes fod i fyth, ffaith a choel,
Tri chlogwyn mawreddog a lethrau moel.

Norman Closs

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

DOSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Dantol
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost: juliaposhpaws@btinternet.com

L.G. OWEN
PENISARWAUN

**GWAITH ADEILADU
CYFFREDINOL**

Gwaith Cerrig- walio a gwynebu
Gwaith Tir-dreinio
Decio a Ffensio - Patios
Llwybrau - Concretio - Dreifs
Bloc Paving a Tharmacio

Gwaith o safon, gyda prisiau rhesymol (Yn gwbwl yswiriedig)

CYSYLLTWCH ▶ 07896739544
NEU ▶ 07787532369

Cau'r Snowdon Valley Hotel, Llanberis.

Mewn adroddiad dan y Ddeddf Drwyddedu 1904, argymhellwyd fod tafarn y Snowdon Valley, Llanberis yn cael ei chau. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r awdurdodau priodol ym Mawrth 1909. Roedd y materi'w dros glwyddo i'r Awdurdod Iawndal a fyddai'n cysidro'r adroddiad ac yn penderfynu a oedd y dafarn i aros ar agor neu i'w chau, a iawndal i'w dalu i'r perchennog a/neu'r tenant.

Trwydded gwerthu cwrw oedd gan y Snowdon Valley, a'r person oedd yn dal y drwydded oedd Charles John Williams. Y bragwyr Soames o Wrecsam oedd perchnogion y dafarn.

Roedd yr Ustusiaid yn gwrthwynebu adnewyddu trwydded y Snowdon Valley

oherwydd "the redundancy of public houses in Llanberis."

Galwyd yr Arlogydd Griffiths i roi tystiolaeth ar ran yr heddlu. Roedd gwerth trethiannol y Snowdon Valley yn £41 a deg swllt y flwyddyn. Roedd yno wyth o lofftydd, lolfa, 'coffee room' 'commercial room', parlwr bach, dwy gegin, siop yn sownd yn y dafarn, pedair atic, ystafell molchi, stablau a chwt cadw coets. Poblogaeth plwyf Llanberis oedd 3015, ac yr oedd digon o dafarndai trwyddedig yn y plwyf - un am bob 335 o'r boblogaeth. Roedd chwech tafarn o fewn y plwyf heb gyfrif yr un ar gopa'r Wyddfa na Thy Cwrw. Yr oedd trwydded gwerthu cwrw ar gyfer pob 520 o'r boblogaeth. Cyfaddefodd yr Arolygydd Griffiths fod y dafarn yn gwneud busnes da, nad oedd

CHWILOTA



trafferthion wedi bod yno, ond mai elw o yfed yn unig a wneid, ac nid o'r ffaith ei bod hefyd yn hysbysebu'r dafarn yn westy.

Galwodd y fainc dri o dystion o Lanberis i draddodi pam nad oedd angen y dafarn. Eu henwau oedd Mr J. Evans Owen, y Parch Thomas Lloyd a Mr Griffith Parry. Yn anffodus, ni roir cyfeiriad iddynt na galwedigaeth. Y cyfan a gofnodir o'u tystiolaeth oedd y ffaith eu bod oll o'r farn nad oedd angen y ty tafarn ar Lanberis.

Ar ran y tafarnwr, galwyd Mr Edward Jones, Compton House. Dywedodd ei fod yn 72

mlwydd oed ac adroddodd fod y dafarn yn hwylus i drigolion y gymdogaeth, a hyd yn oed yn hanfodol iddynt. Ychwanegodd fod teithwyr yn aml yn galw yn y dafarn ac yn defnyddio'r cyfleusterau yn y stablau i gadw eu ceffylau. Dywedodd hefyd fod y dafarn yn brysach ar ddyddiau Llun, yn dilyn tâl.

A dyna'r cyfan a geir yn yr adroddiad. Hyd yn hyn methais a dod ar draws unrhyw gofnod o benderfyniad yr awdurdodau, ond fe gauwyd y Snowdon Valley mewn amser, a pheidiodd a bod yn dafarn. Byddai'n ddiddorol gwybod os oes rhai o'r darllenwyr â llun ohoni pan yn dafarn.

Teulu'r Post, Y Waunfawr.

Ddiwedd y llynedd soniais am deulu Syr Henry Morris-Jones, genedigol o'r Waunfawr, a ddaeth yn aelod seneddol Rhyddfrydol dros Ddinbych ac a hyrwyddodd y syniad o Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru mor gynnar â diwedd yr Ail Ryfel Byd.

Bellach daeth mwy o wybodaeth am y teulu yn lleol, diolch i Mrs Margaret Cynfi, Deiniolen. Dywed hi eu bod yn ddisgynyddion i Robert Jones, Rhoslan, ond nad oedd ganddi y syniad lleiaf pam y daethant o Dinas yn Llyn i gadw post yn y Waunfawr. Roedd nain Syr Henry yn awdures, ac ysgrifennodd lyfryn bychan o'r enw 'Rhodd Nain'. Magdalen Jones (Pritchard yn ddiweddarach) oedd ei henw, ac yr oedd yn wyres i Robert Jones, Rhoslan. Arferai gynnal cyfarfodydd crefyddol ar Bont

y Cynant gyda'r bobl ifanc. Bu Farw yn 1895.

Roedd hen nain Margaret Cynfi yn chwaer i fam Syr Henry, a daeth hithau o Ty'n Bwlwyn, Dinas i helpu ei chwaer gyda'r tyaid o blant. Priododd hithau chwarelwr lleol, ac arhosodd y teulu'n lleol.

Yn y Post, roedd merch o'r enw Magdalen, a alwyd ar ôl gwraig Robert Jones, Rhoslan. Bu fyw yn y Rhyl, yn ddi-blant, ac yno y bu farw yn y 1950'au. Aeth brawd arall, William Morris Jones i'r 'Mericia, a phriodi yn ardal Poultney, Vermont â merch o Ddeiniolen!

Bu brawd arall, John Gladstone, yn feddyg yn Llangollen, a chwaer, Nel a fudodd hefyd, ond dim ond i Frynsiencyn ym Môn. Yn ôl lyfryn yn dathlu daucanmlwyddiant Capel Bethel, Waunfawr, dywedir fod chwaer arall o'r enw Magdalen

Ellis a aeth yn 'governess' i Rwsia! Byddai cael mwy o hanes y ferch hon yn werth chweil. Pwy sy'n gwybod amdani? Priododd chwaer arall (ni roddir ei henw) â meddyg, a mynd i'r India! Dyna deulu

cyfan ar wasgar ym mhedwar ban byd. Mae angen mwy o wybodaeth am y teulu nodedig hwn. Cysylltwch!



Ceffyl Rhyfel.

Daeth y stori ar dudalen flaen rhifyn diwethaf yr "Eco" ac atgofion am ei thad i Mrs Jennie Hughes, Brynrefail. Dafydd Williams oedd ei enw, ac yr oedd yntau yn fab i William Williams, Bod y Gof, Llanberis (awdur y llyfr ar hynafiaethau'r pentref). Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf fe'i hanfonwyd i Ffrainc i ofalu am y ceffylau. Gwaith pedoli oedd ei brif waith, sef yr hyn a wnai gartref yn Llanberis wrth ei alwedigaeth. Siaradai â'r ceffylau yn Saesneg neu yn yr ychydig Ffrangeg a ddysgodd tra yno, ond un diwrnod, daeth ar draws ceffyl nad oedd yn ymateb o gwbl i'r un o'r ddwy iaith. Ac ar diawlio a thyngu'r ceffyl, doedd dim tycio arni, nes i Dafydd Williams o'r diwedd droi i'r Gymraeg - a safodd y ceffyl yn stond a llonydd. O edrych yn fwy manwl, sylweddolodd

Dafydd Williams mai 'Gwenno', un o'r ceffylau a arferai eu pedoli yn Llanberis oedd yno. Roedd 'Gwenno' wedi ei adnabod o yn gynt nac yr adnabu Dafydd y ceffyl! Nid yw Mrs Hughes yn cofio i ba fferm y perthynai 'Gwenno'. Tybed oes rhywun o ddarllenwyr yr "Eco" yn gwybod?

Wedi'r rhyfel, bu Dafydd Williams yn gweithio i gwmni D.J. Williams, Brunswick Ironworks, Caernarfon, fel gof trin haearn, ac ymhlith ei waith mae'r clocau ar ddorau mawr Castell Bryn Bras, a'r gwaith haearn o amgylch y lampau yno.

Llawer o ddiolch i chwiam ddod ac ail gysylltiad y fro â cheffylau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

CHWILOTA Parhad



Pryd cychwynnodd y mewnlifiad?

Mewn adroddiad blynyddol un o gapeli Methodistaidd y fro y gwelais ddatganiad braidd yn annisgwyl am y mewnlifiad Seisnig i'r fro, a hynny mor gynnar â dechrau'r 1960'au. Ac i gyrion bro'r "Eco" yr awn y tro hwn a mentro i ffiniau "Lleu".

Yn ôl William Hobley yn 'Hanes Methodistaeth Arfon', adeiladwyd capel bach Penrallt, ar Allt Coed Mawr yn 1864; y tir yn rhodd gan Evan Owen, Penrallt. Yr oedd gwasanaeth cyn hynny yn cael ei gynnal yn achlysurol yng Ngwredog. Roedd pregeth yn cael ei thraddodi ym Mhenrallt unwaith y mis, ac aelodau o'r Waunfawr oedd yn cynorthwyo gyda'r gwaith yn y capel bychan.

Mewn adroddiad yn dyddio o 1885 dywedir fod i Benrallt "ffyddlondeb mewn man anghysbell." Cynhelid dosbarthiadau darllen i blant yn ystod yr wythnos, ac yn ogystal i'r dosbarth hwn, roedd un arall i oedolion a oedd am ddysgu darllen. Anodd credu rhywsut fod cynifer o drigolion ardal Allt Coed Mawr a'r Lôn Wen yn anlythrennog!

Prin iawn yw'r wybodaeth y gellais ei ddarganfod am hynt a helynt y capel a'i aelodau. Byddwn yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth pellach amdano.

Does gen i ddim dyddiad sicr o pryd y cauwyd y capel, ond gwn iddo gael ei werthu yn 1960/61. Daw'r wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Bethel, Y Waunfawr am y flwyddyn 1961. A dyma ddyfynnu'r paragraff yn llawn:

"Y mae un digwyddiad y dylem gyfeirio ato, sef gwerthiant ysgoldy Penrallt. Codwyd yr ysgoldy gan mlynedd yn ôl fel cangen o eglwys Bethel, a bu Ysgol Sul lewyrebus iawn yno am flynyddoedd lawer. Ceid pregeth hefyd yn fynych heb law cyfarfodydd plant blodcuog ryfeddol. Bu yr ysgoldy yn gaffaeliad mawr i

deuluoedd Allt Coed Mawr oedd yn byw bellter o'r capel. Y mae amryw yn ein plith yn trysori y cof am y llewyrch a fu yno unwaith, ac am y bendithion a dderbyniwyd yn yr addoldy bach. Ers tro bellach symudodd y teuluoedd o'r rhan hon o'r gymdogaeth a Saeson sydd yn byw gan nwyaf yn y tai. Gwnaed ysgoldy Penrallt yn ddianghenraid, ac yn hytrach na gweld yr adeilad yn dadfeilio penderfynwyd ei werthu, a chafwyd pris teg amdano."

Y fi sydd wedi tanlinellu'r frawddeg uchod. Fyddai unrhyw adroddiad capel yn meiddio cyhoeddi'r fath frawddeg heddiw mewn cyfnod o fod mor 'wleidyddol gywir'? Ac eto, mae'n siwr mai datgan y gwir plaen yr oedd swyddogion Capel Bethel, Y Waunfawr yn 1961 heb feddwl cythruddo neb.

Yn 1960 y cyhoeddwyd "Y Lôn Wen" - darn o hunangofiant Kate Roberts. Ym mhenodau'r hunangofiant hwnnw mae'n son llawer am ei theulu yng nghyffiniau'r Allt Coed Mawr. Tybed a wyddai hi yn Ninbych yn 1961 mai iaith estron a siaredid yng nghartrefi ei hynafiaid ar y llecyn tir hwnnw rhwng y Waunfawr a'r Rhosgadfan?

Y mis nesaf, olrhain hanes un o giperiaid y fro, a mwy o bytiau. Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth, llun neu ymholiad am hanes bro'r "Eco" i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

Rhwygo bro'r "Eco"?

Mae 'na Fethel a Brynrefail ar Ynys Môn eisoes. Ydy'n nhw angen dau arall? A thybed fydd 'Llanbabo' yn dychwelyd? A sut bydd Llanberis, Llanrug a'r Waunfawr yn dygymod â Llanbryn-mair, Glantwymyn a Machynlleth? Ar goll yn barod?

Welystyriwch mai dyna allai ddigwydd yn ôl cynigion cychwynnol arolwg y Comisiwn Ffiniau i Gymru, sy'n bwriadu newid yr etholaethau seneddol. Yn ôl y gwybodusion gwleidyddol, dylai aelodau seneddol gynrychioli cyfartaledd o 76,641 o etholwyr. 72,810 yw'r nifer lleiaf o etholwyr a ddylai fod ym mhob etholaeth. Peidiwch â holi sut na pham y daethpwyd at y fath ystadegau, ond ar hyn o bryd mae 39 o'r 40 etholaeth yng Nghymru yn is na'r cyfanswm lleiafrifol. Felly, rhaid cwtogi ar nifer yr etholaethau.

Mae'r cynnigion yn effeithio ar ardal yr "Eco". Byddai adrannau etholiadol Bethel, Deiniolen a Phenisarwaun yn dod yn rhan o etholaeth newydd Menai ac Ynys Môn. O fewn yr etholaeth newydd hon hefyd byddai cymunedau Bangor, dyffryn Ogwen a Llanfairfechan.

Byddai adrannau etholiadol Cwm y Glo, Llanberis, Llanrug a'r Waunfawr yn dod yn rhan o etholaeth newydd Gwynedd, ac y mae'r Wynedd newydd yn anferthol o ran arwynebedd. Byddai'n cynnwys etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd, yr holl gymunedau o'r hen Arfon i'r de o afon Saint, cymunedau deheuol dyffryn Conwy, yn ogystal â Machynlleth, Glantwymyn a Llanbryn-mair o Ogledd Powys.

A sut byddai hyn yn effeithio ar unigolion o fewn bro'r "Eco"? Mae etholwyr Môn mor anwadad, gallai trigolion Llanddeiniolen gael aelod seneddol o blaid wahanol yn eu cynrychioli bob yn ail etholiad. Fyddai hi o fantais cael dau aelod seneddol yn cynrychioli dalgylch Ysgol Brynrefail? Ble byddai canolfan aelod Menai ac Ynys Môn - Llangefni neu Fangor? A pha mor ymarferol fyddai hi i etholwr o ben draw Dinorwig deithio i Llangefni i weld ei aelod seneddol? Gellir hefyd ystyried faint o siawns fyddai gan aelod seneddol y Wynedd newydd i ymweld â'i holl etholwyr.

Dyna rai o'r ystyriaethau i bendroni ynglyn â hwy. Ac os dymunwch ddatgan eich barn neu holi ynglyn â'r newidiadau arfaethedig, yna mae cyfle i chwi gyfarfod yng Nghaernarfon ar y 7fed a'r 8fed o Fawrth yng Ngwesty'r Celtic Royal. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch ar y wê ar safle www.comffin-cymru.gov.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE

01286-672076

neu

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248-372948

alunffred.jones@cymru.gov.uk



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

PENTREFWYR PYBYR!



Bu tri o blant ifanc y pentref, 7-10 oed, am dro un Sul braf o gwmpas y pentref. Fe'u digalonwyd yn fawr o ganfod yr holl sbwriel a charthion cwn yn anharddu eu cynefin. Bu'r tri yn brysur yn llunio poster effeithiol iawn a'u dosbarthu o gwmpas y pentref. 'Dim Sbwriel' oedd y neges fawr. Diolch byth fod gennym rai mor ifanc sy'n ymwybodol o effaith andwyol sbwriel. Mawr obeithir y bydd y neges gynhwysfawr yn cyrraedd calon y plant hyn a pherchnogion cwn. Da iawn chi, Enlli, Ioan a Catrin Elen am eich cenadwri amhrisiadwy: Dim Sbwriel - codwch ef ac ewch â fo i'r bin.'

Enlli, Ioan a Catrin Elen gyda'u poster 'Peidiwch â thaflu Sbwriel'.

Dathlu. Byddwn yn dathlu Dydd Gwyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr ar Fawrth 1af. Bydd y plant yn cael cyfle i ddod i'r ysgol mewn gwisg Gymreig yn ogystal â dod â'u hoff lyfr. Byddwn yn cael cinio blasus o gig oen Cymreig i orffen y dathlu.

PWYLLGOR NEUADD. Enillwyr Clwb Cant Chwefror yw Ifan Griffith, Tai Arthur ac Iwan Parry, Tawelfa.

Cynhaliwyd Noson Dwynwen ar nos Fercher, 25 Ionawr a bu'r cystadlaethau o lunio cerdyn, addurno bag, addurno teisen y a chreu poster Disgo yn hynod o safonol. Dilynwyd gyda Disgo Dwynwen a diolchir i Glesni, Tania a Miriam am

ofalu am y Disgo.

Diolchir i ffyddloniaid y Clwb 100 am adnewyddu eu haelodaeth. Buasem yn hynod falch o aelodau newydd gan fod cost fawr o'n blaenau i wella safon goleuo'r Neuadd. Y mae cwpwrdd arddangos tariannau a chwpanau eisoes yn ei le a diolchir i'r ysgol a phwyllgor yr Eisteddfod Bentref am ysgwyddo'r gost o bron i £500. Gofynnir yn garedig am eich cydweithrediad arferol drwy gefnogi ein hymgyrch i godi arian tuag at wella'r system oleuo yn y Neuadd Gymuned.

CRONFA PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri - Llongyfarchiadau i enillydd mis Ionawr, Mrs Jean Roberts gyda Rhif 1.

EISTEDDFOD BENTREF 2012. Cynhelir yr Eisteddfod eleni nos Wener, 6 Gorffennaf. Cynhelir Pwyllgor ar nos Iau, 15 Mawrth am 6.30 i ddewis testunau.

GWELLHAD. Y mae arwyddion o gychwyn y gwanwyn o'n cwmpas a gobeithir fod y rhai ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn prysur wella. Anfonwn ein cofion anwylaf at Elinor Jones, Bron y Waun, a da oedd deall fod Myra Griffith yn gwella wedi triniaeth i'w chalon yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl.

YSGOL SUL BOSRA. Estynnwyd croeso mawr i Morgan atom a gobeithio y bydd yn mwynhau ei hun yn ein plith. Bu prysurdeb mawr yn ddiweddar yn creu cardiau Santes Dwynwen a San Ffolant a Gwyl Ddewi. Mae cyfnod prysur eto o'u blaenau gyda dwy Gymanfa i gymryd rhan ynddynt. Trefnir Cymanfa'r Annibynwyr ym mis Medi eleni ond bydd Cylch Deiniolen, Llanberis a ninnau yn trefnu bws i Gymanfa'r Urdd yng Nglynllifon ar 3ydd Mehefin. Bydd Cymanfa'r Methodistiaid yn Seiloh, Tregarth, ar 24 Mehefin. Y mae'r plant a'r athrawon yn anfon eu cofion at Anti Elinor - un gefnogol iawn i weithgareddau'r Ysgol Sul bob amser.

GAIR O DDIOLCH.

Dymuna Margaret a'r teulu, Carrog, Waun, ddiolch o galon am yr holl arwyddion o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr annwyl iawn - sef Elfyn. Bydd y rhoddion yn mynd tuag at 'Bws Mini, Cyfeillion Ysgol Brynrefail, Llanrug'.

CERDDOR O FRI.

Llongyfarchiadau mawr i Lois Eifion ar ei llwyddiannau yn Eisteddfod Ryngolegol 2012 a gynhaliwyd ym Mangor. Drwy anogaeth ac ymlafnio caled Lois, Bangor fu'n fuddugol gyda 400 o bwyntiau ar y blaen i Aberystwyth, Caerdydd, Y Drindod ac Abertawe. Cipiodd Lois y wobwr gyntaf ar y piano a'r alaw werin. Hi hefyd fu'n hyfforddi'r partion a'r corau. Pinael ei llwyddiant oedd derbyn Tlws y Cerddor a hi oedd yn ail hefyd yn y gystadleuaeth hon.

Y mae Lois yn edrych ymlaen rwan i gael canu un o ganeuon Cân i Gymru ar Fawrth 4ydd. 'Cain' yw enw'r gân a chyfansoddwyd yr alaw gan Nia Williams, cyd-fyfyriwr i Lois, a'r geiriau gan Siân Owen, Ynys Môn. Pob lwc i ti, Lois.

Ein dymuniad da hefyd i Gwilym Rhys, Bethel, yntau hefyd yn canu un o ganeuon Cân i Gymru ac fel Lois, yn gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail.

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren



Dydd Sul, 25 Mawrth

Dydd Sul, 22 Ebrill

Dydd Sadwrn, 19 Mai



**Sesiwn Dros Gymru
Gweithdai Gwerin CLERA 2012/13
Amgueddfa Lechi Llanberis**

£7.50 y gweithdy / £12 tocyn teulu / £5 gostyngiadau

Ffôn: (01286) 831344 ehost: catrin@sesiwn.org.uk

www.sesiwn.org.uk www.clera.org

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Ionawr oedd: £30: Mrs Leslie Williams, 4 Ty Hen; £20: Ms Sylvia Thompson, 21 Bro Waen; £10: Mrs Rhian Elis, Ty'n Llidiart.

DIOLCH. Daeth y gwaith o blygu rhifyn y mis diwethaf o'r Eco i ben yn dda iawn. Diolch i'r rhai ddaeth i festri Eglwys y Waun i ymgymryd â'r gwaith ac i swyddogion y capel am gael ei wneud yng nghlydwch y festri.

SIOP Y PENTREF. Tipyn o fraw oedd deall bod Howard a Debbie wedi penderfynu cau siop y pentref wedi tair blynedd a hanner o gynnal y gwasanaeth, ond daeth newyddion da fod Cled a Susan, Swyddfa Bost Bethel, wedi dod i gadw'r gwasanaeth ymlaen inni yma yn y Waun.

Diolchwn yn fawr i Howard a Debbie a dymunwn y gorau iddynt i'r dyfodol. Diolchwn yn fawr hefyd a dymunwn yn dda i Cled a Susan. Dyma eu neges i ni:

GENEDIGAETHAU. Daeth Morus ac Ann Elfryn, Coed Gwydryn, yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Lili, i Heledd ac Aled. Llongyfarchiadau mawr ichi.

Daeth Robat a Bethan Williams, Gwernydd, hefyd yn daid a nain i wyres fach, Cari Louise, merch Ceirion a Donna, chwaer fach i Chloe. Llongyfarchiadau i chwithau hefyd.

Mab bychan, Morgan, a anwyd i Karen a Michael Owen, Stad Bro Waun, brawd i Fiona, Tomos, Emily, Chloe a Guto. Wyr bach newydd i Megan

Williams, Bryn Difyr a Dennis Bound, Bro Waun, a gor-wyr i Mrs M. Jones, Glasfryn, Teras Glyn Afon.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Karen Morris, Bryn Celyn; Nia Gosset, Cam Cyntaf a Kelly, Pine Cottage, sydd wedi brifo ei throed. Bu Mrs Glenys Williams, Ty'n Weirglodd, ac Eurwyn Williams, Parc, hefyd yn yr ysbyty am gyfnod. Dymunwn wellhad buan i chi i gyd ac y byddwch yn cryfhau wedi cael dod adref.

DIOLCH. Dymuna Karen, Bryn Celyn, ddiolch i'w theulu

a'i ffrindiau am y caredigrwydd a'r cymorth mae wedi ei dderbyn tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

YMDDEOLIAD. Dymunwn ymddeoliad hapus i Aled Taylor, Baladeulyn, Stad Dôl Erddi wedi iddo fod yn Warden ym Mharc Cenedlaethol Eryri am dros ddeng mlynedd ar hugain.

CYDYMEIMLO. Anfonwn ein cydymeimlad dwys at Talina Legget a theulu Gwynant, Teras Glyn Afon, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, sef y diweddar Mr R. Legget, Arwel.

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn 2012 yn y Ganolfan nos Iau, 26 Ionawr, adyletswydd trist y Llywydd, Mrs Iola Ynyr, oedd cydymdeimlo yn ddwys â Mrs Olwen Owen a'r teulu oll ar eu profedigaeth lem o golli Elizabeth, merch Mrs Owen. Mae ein meddyliau'n troi'n aml y dyddiau hyn at Olwen, Gwenno a Huw a'u teuluoedd ac at Stephen a'r bechgyn yn eu colled arw.

Gwraig wadd y noson oedd Mrs Anna Williams o'r pentref. Daw Anna o Norwy yn wreiddiol ond mae hi a'i theulu wedi ymgartrefu yn y Waun ers rhai blynedd.

Mae Anna yn swyddog prosiect efo Partneriaeth Bywyd Gwyllt Eryri ac yn gweithio gydag ysgolion a chymunedau er mwyn harddu eu cymdogaethau ac annog bywyd gwyllt. I gyd-fynd â'r sgwrs cawsom sioc sleidiau hyfryd ac roedd pawb yn rhyfeddu at y gwaith gwyh

mae Anna yn ei wneud gydag ysgolion a chymunedau, gan gynnwys ein hysgol ni yma yn y Waunfawr. Roedd yn amlwg bod Anna wrth ei bodd yn ei gwaith ac yn medru cyfleu'r un brwdfrydedd ac afaith i'r bobl ifanc sy'n gweithio gyda hi. Roedd yn ddiddorol iawn gweld y lluniau 'cynt' ac 'wedyn' ac hefyd wynebau hapus y plant, yn amlwg yn mwynhau'n fawr. Wrth roi gair o ddiolch canmolodd Mrs Rhian Elis y ffordd yr oedd Anna wedi mynd at i ddysgu Cymraeg yn rhugl, a dywedodd ei bod yn bleser ei clywed yn cyflwyno ei sgwrs yn Gymraeg.

Cynhelir cinio Gwyl Dewi y gangen ar Fawrth 1 yng Nghaffi Antur Waunfawr a nos Iau, 29 Mawrth, byddwn yn croesawu Wil Aaron o Landwrog i roi sgwrs yn y Ganolfan. Rydym bob amser yn falch o weld wynebau newydd yn ein plith.

Siop Bentref Waunfawr

Hoffem ein cyflwyno ein hunain i chi fel Cled a Susan, Swyddfa Bost Bethel

Mac'n debyg eich bod yn gwybod bod yr unig siop yn Waunfawr yn cau ddiwedd y mis hwn - ergyd drom i chi, drigolion yr ardal, ac yn eich amddifadu o wasanaeth cymunedol pwysig. Wedi ystyried yn ofalus, fodd bynnag, rydym wedi penderfynu ymgymryd â'r gwaith ac ailagor y siop yn syth, sef fore Sul, Ionawr 29, 2012. Yr un fydd y nwyddau a'r gwasanaeth a gynigir ond mae'n rhaid nodi mai ymgymeriad dros dro fydd hwn ar y dechrau a hynny am ddau reswm.

Yn y lle cyntaf, hoffem weld a fydd cefnogaeth pobl Waunfawr yn parhau'r un mor gyson i'r siop ag a fu yn y gorffennol, ac felly yn cyfiawnhau ei chadw'n agored ar gyfer pobl Waunfawr a'r cyffiniau.

Yn ail, rydym yn awyddus i ail-sefydlu'r gangen leol o'r Swyddfa Bost yn Waunfawr - gwasanaeth a gollwyd ychydig yn ôl. Bwriadwn wneud cais i ni gynnal gwasanaethau'r Swyddfa Bost unwaith eto yn Waunfawr. Er mwyn gwneud hynny, mae gofyn i ni gyflwyno tystiolaeth gadarn i awdurdodau'r Swyddfa Bost fod digon o bobl yr ardal yn defnyddio'r siop ac, o ganlyniad, yn debygol o wneud defnydd digonol hefyd o'r Swyddfa Bost. Gyda hyn oll mewn golwg, edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r siop a chael eich cefnogaeth yn ein menter. Fel chwithau, teimlwn bod diogelu'r siop bentref, ynghyd â Swyddfa Bost, yn un cyfraniad tuag at warchod hunaniaeth ac annibyniaeth ein pentrefi yng nghefn gwlad Cymru. Cydiwch yn y cyfle a mynnwch gadw eich gwasanaethau lleol

Gyda'ch cefnogaeth chi, gallwn sicrhau parhad un o brif wythiennau calon y gymuned leol.

Cydnabyddir cefnogaeth

Nodir gan
Llywodraeth Cynulliad Cymru
sponsored by
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH
CYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o gyfarfod Chwefror.

Cychwynnwyd y cyfarfod trwy weddi

A4244 Groeslon Ty Mawr/ Pentir - ateb Gwynedd na chofnodwyd damwain ar y ffordd yma o fewn y pum mlynedd ddiwethaf.

Llochesau Bws. Gan bod cyflwr y lloches ger ysgol Bethel yn ddrwg, penderfynwyd gofyn i Wynedd osod un newydd yno Brynrefail. Dywedodd Pat Jones ei bod wedi cyfarfod â Swyddog o Adran Ffyrdd Gwynedd ar y safle i ystyried gosod llinellau melyn. Y canlyniad yw nad oes arian ar

gyfer gosodiadau a bod angen caniatâd perchnogion tai ar eu cyfer. Trafodwyd ymhellach yr angen am faes parcio ond am nad oes tir cyhoeddus ar gael mae prynu tir allan o'r cwestiwn.

Blwch postio Tan Gaer. Dywedodd Phyllis Ellis gan bod cymaint o amser wedi mynd heibio bod y trigolion yn pryderu nad yw'n fwriad gan y Post Brenhinol i ail osod y blwch - llythyr i'w hatgoffa eto. Penisarwaun, Baw Cwn.

Danfonwyd neges i'r cyfarfod gan Y Cyngorydd Mrs Pat Larsen:

1. yn dweud bod plant ym

Mhenisa'rwaun wedi gosod posteri ar hyd y pentref i wahardd gadael baw cwn a'u bod yn gofyn iddi drefnu cael bin baw cwn ger yr ysgol.

2. yn gofyn i Wynedd am leoli Maes Parcio ym Mrynrefail.

Penderfynwyd cefnogi y ddau gais i Wynedd.

Dwr Cymru. Cyfeiriodd Hefin Williams at ymgyrch y Bwrdd Dwr i atgyweirio pibellau sy'n gollwng. Y cysylltiad i gwyno am ddwr yn gollwng yw 0800 281 432 neu www.dwrcymru.com

Cynllunio.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Môn a Gwynedd - gofyn

barn. Derbyniwyd adroddiad Phyllis Ellis i'w ddanfoni i Reolwr Cynllunio'r (Polisi) Awdurdod. Derbyniwyd hefyd yr adroddiad a ddanfonwyd gan Mrs Larsen.

Derbyniwyd saith cais

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2 garafan sefydlog yn 1 Ty Mawr Cottages, Llanddeiniolen.

Llwybrau.

Capel Cysegr, Bethel. Dywedodd Huw P. Hughes nad yw'r ffens wedi ei hatgyweirio wrth ochr llwybr yma - llythyr i Wynedd.

Parhad PENISARWAUN W

YSGOL GYMUNED.

Cyngor Ysgol. Dyma enwau'r disgyblion fydd yn cynrychioli'r Cyngor Ysgol:

Bl 5 a 6: Catrin Sara Donnelly, Amie Lewis, Twm Herd, Catrin Elen Jones a Natasha Preston Jones.

Bl 3 a 4: Ioan Williams, Elin Thomas, Carwyn Owen a Georgia Parkinson.

Bl.2: Mabli Baines a Harri Williams.

Mae Catrin Elen Jones a Carwyn Owen wedi eu dewis fel Llysgenhadon Chwaraeon i'r Ysgol. Eu gwaith fydd hyrwyddo chwaraeon o fewn yr ysgol. Pob lwc iddynt gyda'r gwaith yma.

Ymweliadau. Cafodd Dosbarth Bl 5 a 6 gyfle i greu gwefan yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis ddydd Mawrth, 31 Ionawr. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn arw.

Dydd Llun, 6 Chwefror, daeth Mr Dilwyn Griffith draw i'r ysgol i roi sgwrs ddiddorol i blant CA2 am y Tuduriaid. Dangosodd wahanol Arteffactau iddynt a oedd yn ymwneud â'r cyfnod.

Fel rhan o'u thema Cartrefi, aeth dosbarth y Cyfnod Sylfaen i ymweld â Bron Haul yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis bawn dydd Mawrth, 7 Chwefror. Cawsant hefyd gyfle i gymryd rhan mewn Gweithdy yn ymwneud â golchi dillad ers talwm.

Dydd Llun, 20 Chwefror, daeth Mark y Consuriwr i'r ysgol i gynnal Gweithdy 'Paid Cyffwrdd, Dweud' er mwyn codi ymwybyddiaeth Bl 3 a 4 o beryglon cyffuriau a Bl 5 a 6 o beryglon Alcohol.

Eisteddfod yr Urdd 2012. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn paratoi at wahanol gystadlaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn bob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, 25 Chwefror. Yn ogystal byddant yn cystadlu yn yr Adran Gelf a Chrefft a Llenyddiaeth.

Daeth Mr Andre Setatree i gynnal Gwasanaeth Borcol yn yr ysgol ar ddydd Mawrth, 28 Chwefror. Diolch iddo am roi ei amser i ddod atom yn achlysurol.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd a 17fed o Ionawr 2012 gwnaed y penderfyniadau canlynol:

* Trefnu bod y biniau yn y caeau chwarae yn cael eu gwagio pob bythefnos ar gost o £615 y flwyddyn.

* Hysbysu'r Swyddog Llwybrau bod llwybr Gelliod yn fwdlyd iawn a bod problem tebyg ar y llwybr rhwng yr Eglwys a Pant Tirion sydd wedi gwaethgu ers gosod pibellau yn yr ardal yn ddiweddar.

* Gofyn eto am fwy o finiau ac arwyddion baw ci yn y gymuned a datgan siom y Cyngor nad ydynt wedi cael eu derbyn hyd yma.

* Gwrthwynebu'r cais i Adeiladu 6 ty fforddiadwy a mynedfa newydd - Tir dros y ffordd i Garej Hafod, Llanrug gan fod ysgolion y pentref cisocs yn llawn a'i fod y tu allan i'r ffiniau datblygu.

* Nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

Estyniad i'r dosbarthiadau presennol a dymchwel yr uned ddysgu dros dro - Ysgol Gynradd Llanrug, Llanrug.

Estyniad ochr un llawr a lledu'r fynedfa bresennol - Bryn Mair, Ffordd Crawia, Llanrug.

Cais ôl-weithredol i gadw adeilad saethyddiaeth a decking pren wrth y caffi - Parc Gwyliau Bryn Teg Llanrug.

* Cyfrannu grant o £725 i Glwb Pêl-droed Llanrug Unedig.

* Gofyn i Mr Emlyn Jones wneud giât ochr newydd yn y fynwent gan ei bod mewn cyflwr drwg ac i beintio'r giât gyfagos.

* Cael pris am glirio'r mwsog ar llwybrau'r fynwent a oedd yn eu gwneud yn llithrig iawn.

Yn anffodus mae pethau yn dal i rygnu 'mlaen gyda Llyn Padarn. Er fod adroddiadau a beirniadaeth ar sut mae Dwr Cymru yn ymdrin â'r mater, yn ôl pob golwg maent yn anwybyddu'r cwbl.

Ar 20ed Chwefror 2012 roedd broblemau'r llyn yn destun rhaglen Manlyu ar Radio Cymru ac fe gafwyd esboniad gan lawer un, yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor Cefn Gwlad, ond gwrthododd Dwr Cymru gymryd rhan. Mae'n ddigon amlwg i bawb nad oes llawer o fwriad ganddynt wneud dim yn y dyfodol agos. O bosib, yr unig ffordd fydd i'r Cynulliad Cenedlaethol gamu i mewn a rhoi gorchymyn i'r cwmni wneud beth sy'n angenrheidiol o fewn amser penodedig, sef rhyw flwyddyn. Ond ar y funud, mae'n edrych yn debyg fod y Cynulliad mor benderfynol â'r cwmni dwr i anwybyddu pawb. Mae'r holl beth yn drewi mewn mwy nag un ystyr.

Fel cam pellach yn y drychineb yma cefais alwad am sgwrs gyda swyddogion adran bysgodfeydd yr Asiantaeth ar ddechrau Chwefror, a tydi'r stori ddim yn gwella! Roeddynt eisiau datgelu canlyniadau 'Hydroacoustic' i ddarganfod y sefyllfa bresennol gyda niferoedd y torgoch yn ystod 2011. Dim byd positif mae gennyf ofn, y tebygrwydd yw fod ond rhwng 500-600 o'r pysgod unigryw yma ar ôl, nid yw nifer fel hyn yn gynaliadwy at y dyfodol. Yr amcan yw y bydd y torgoch wedi marw allan o Lyn Padarn ymhen 3-5 mlynedd, trychineb arall o feddwl yn ôl i 1994 pan oedd 600 o'r pysgod yma yn dod i'r enwair. Pluen arall yng nghap yr awdurdodau am gael 'A' seren mewn difaterwch.

Mae'n amlwg fod gwaith trafod gyda llawer corff gan ei bod yn amlwg fod dim gwerth ar hawliau pysgota Padarn a'r Seiont tra bydd y sefyllfa bresennol yn bodoli.

Er yr holl dywyllwch mae rhaid bod yn bositif ac edrych ymlaen gan ein bod ar drothwy tymor arall, gyda'r afonydd yn agor eu drysau ar 3ydd Mawrth. Araf iawn fydd pethau hyd at ddechrau Ebrill ond, wrth gwrs, bydd yn rhaid cael gwlychu pluen am rhyw



Ar ben arall i'r lein

awr neu ddwy ar y diwrnod agoriadol. Ar 20ed Mawrth y bydd y llynnoedd, heblaw Dywarchen (1af Ebrill), yn dechrau arni. Gyda problemau Padarn, Llynnoedd Nantlle a Cwellyn fydd y dynfa. I'r rhai sydd a'u bryd ar frithyll yr Enfys dyma ddyddiau stocio Dywarchen, 19 Mawrth, yn barod am y diwrnod agoriadol. Wedyn 14 Mai, 18 Mehefin, 17 Gorffennaf a 13 Awst.

Rwyf wedi cael fy rhoi ar ddeall fod gwaith i'w wneud hefyd, drwy nawdd Cynllun Afonydd Cymru, i ail osod criw ar un o byllau Crawia, sydd yn bresennol yn rhwystr go fawr i'r Sewin a'r Eog redeg y Seiont ar adegau a ddwr isel. Gobeithio cwblhau'r gwaith yma cyn yr haf.

Mae sicr eich bod wedi sylweddoli drwy'r cyfryngau, yn enwedig y teledu, fod eisiau i bawb wneud mwy o gerdded a gwaith gwirfoddol drwy roi cymorth i gynlluniau amgylcheddol. Wel, beth am rhyw ychydig o waith ar lannau ein dyfroedd: agor llwybr yma ac acw, gwneud rhyw lle cyn bach am seibiant. Cysylltwch yn llu, mae digon o waith i'w wneud ond yn anffodus does dim arian i dalu!!

Ar ddiwedd 2011 fe gollwyd aelod ffyddlon iawn o'r Gymdeithas, sef Ron Miers, Capel Coch, Ynys Môn. Ron oedd yn rhedeg safle we llwyddiannus dros ben ar ran y clwb. Os oes unrhyw un gyda'r wybodaeth a'r amser i gynnal y safle buasai'r clwb yn ddiolchgar dros ben pe baech yn cysylltu.

Huw Price Hughes.

Mentrwch i'r dwr gyda Menter Nofio am Ddim 60+

Os ydych yn 60 oed neu'n hŷn ac yn awyddus i roi cynnig ar rywbeth newydd, yna mae gan y 'Fenter Nofio am Ddim' rywbeth i'w gynnig i chi. Mae'r fenter yn un cenedlaethol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i redeg gan wasanaeth hamdden Cyngor Gwynedd. Mae wedi'i anelu at wella iechyd a lles bobl hyn a'u hannog i fod yn fwy corfforol ac egniol.

Yn ystod y sesiynau dewisol gall drigolion o Wynedd sy'n 60 oed neu'n hŷn gael defnyddio pyllau nofio yng

Ngwynedd am ddim. Os nad yw nofio yn ôl ac ymlaen o ddiddordeb i chi mae digon o weithgareddau dŵr eraill ar gael. Er enghraifft cerdded neu redeg yn y dŵr, sesiwn aquafit, gwersi nofio, sesiynau gwella strôc ac ymarfer corff aquagym.

Mae gan nofio lawer o fanteision, gan gynnwys: gwella ffitrwydd, tynhau cyhyrau'r corff, gwella ystum a hyblygrwydd a gwella cyflyru cardiofasgwlaidd. Gall raglen ymarfer sy'n cynnwys nofio gynorthwyo i ostwng pwysedd gwaed uchel gan leihau'r risg o

glefyd y galon a strôc.

Dyweddodd Dyfed Glyn Davies, Swyddog Datblygu Gweithgareddau Dwr Cyngor Gwynedd: 'Mae mwy a mwy o bobl dros 60 oed yn manteisio ar y cynllun nofio am ddim yma yng Ngwynedd, ac rydym yn falch o weld Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynllun unwaith eto eleni.

'Mae manteision nofio yn ddiddiwedd, mae'n ymarfer corff perffaith ar gyfer colli pwysau, yn ogystal mae'r pwll yn le gwyh i gyfarfod pobl newydd neu fynd â'ch ffrindiau

gyda chi i gael hwyl. Gall nofio hefyd eich ymlacio'n llwyr ac mae'n ffordd wych o ryddhau straen.

'Cofiwch fod yn rhaid i chi gofrestru i dderbyn eich cerdyn nofio am ddim felly cysylltwch â'ch pwll nofio lleol am fwy o wybodaeth.'

Mae llawer o byllau nofio yn cynnig gweithgaredd am ddim gyda hyfforddwr cymwysedig bob wythnos, mae'r amseroedd a'r gweithgareddau yn amrywio ym mhob pwll, felly cysylltwch â'ch canolfan hamdden leol o flaen llaw am fwy o fanylion.



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718



SWIGOD A SEBON

SYCHLANHAU
Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

HYRWYDDO'R OLYMPIAD

Yn ddi-os, mae agosatrwydd tanio'r fflam Olympaidd yn cynhyrfu'r galon. Ie, taniwyd sawl dadl hefyd, gyda chwyn benodol fod sawl mudiad 'gwreiddiau chwaraeon' yn colli nawdd er mwyn ariannu'r sioe fawr. Hefyd, yn ddiamheuol, Gemau Olympaidd Llundain a gawn. Tu hwnt i'r dadleuon a'r biliau i'w talu, mae'n siwr y bydd y cystadlu yn cyrraedd safon aruchel.

Mae cyfleusterau gwych yno, ac eisoes trefnwyd ambell gystadleuaeth i'w 'trio allan'.

Un o'r rhain yw'r velodrome seiclo. Trac cyflym eithriadol ac eisoes torrwyd recordiau byd yno. Mae ambell i Gymry yn y timau hefyd a'r prif hyfforddwr yw David Brailsford, a'i wreiddiau yn ardal Deiniolen. Dilynwn ei ddylanwad yn y gamp sydd wedi dod yn hynod boblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae cynllun yn yr ysgolion cynradd i ddewis llys-genhadon Olympaidd. Yn Ysgol Bethel dewiswyd Elan Jones a Nathan Hughes o flwyddyn 6. Mae Nathan yn bêl-droediwr safonol gyda thîm Bethel ac Elan yn mwynhau gymnasteg a dawns.

Y syniad yw fod y llysgenhadon yn cynnal diddordeb yn y Gemau. Casglir gwybodaeth, croniclo hanes a chreu llyfr lloffion. Rwy'n siwr y bydd cynnyrch yn llenwi sawl mur Ysgol yn ystod y misoedd nesaf.

Datblygiad i'w gannol yw'r cynllun Dal i Fynd. Dyma geisio adlewyrchu prif ddymuniad y Gemau fod yr unigolyn yn gosod her bersonol ac anelu am yr eithaf. Y syniad yw fod y plant yn rhedeg pellter penodol bob dydd. Mae trac wedi ei osod ar gae yr Ysgol. Fe gyflwynir tystysgrif i'r disgybl wedi iddynt gyflawni pellter neilltuol. Y pellter cychwynnol yw 10 Km! Gwelais un dystysgrif ar y mur wedi ei gyflwyno ar ôl cyrraedd 90Km.

Ym myd chwaraeon enillodd carfan nofio'r ysgol Darian Arfon yr Urdd, a daeth tîm pêl-rwyd yr Ysgol yn drydydd yn eu cystadleuaeth hwy.



Nathan Hughes



Elan Jones

YNHWETO..!

Ym myd pêl-droed lleol gohiriwyd nifer o gemau yn ystod y mis oherwydd cyflwr gwlyb y meysydd. Gemau cwpan oedd y mwyafrif, ac mae gan Llanberis a Llanrug nifer o gemau mewn llaw yn eu cynghreiriau. Tymor hir o'u blaenau felly, ond gall y ddau dîm ganolbwyntio ar y gynghrair wedi ffarwelio â'r cwpanau. Ni ddylai unrhyw un boeni am ddisgyn eleni. Yn wir mae adran 1 yr Alliance - cynghrair Llanrug - yn gystadleuol iawn. Un o'r ceffylau blaen yw Hotspurs Caergybi. Yn anffodus, daeth Llanrug ar eu traws mewn sawl cwpan eleni. Gemau agos pob tro, a'r un oedd y stori yng Nghaergybi yng Nghwpan Barritt yn rownd yr wyth olaf. Chwip o gêm, ac nid am y tro cyntaf eleni, gôl hwyr Mel McGuinness yn gyrru'r Monwysion i'r rownd gyn-derfynol.

DAU GAP?

Braf cyhoeddi y gall Gruffydd John Williams ennill capiau cenedlaethol ar ddwy lefel eleni. Fel aelod o'r garfan Ysgolion, mae'n siwr o wireddu'r freuddwyd yn ystod y tymor. Ond, daeth cap eisoes fel aelod o dîm dan 18 lled-broffesiynol Cymru. Llwyddodd y tîm i drechu Eire o 2-1 draw yn Wexford. Llongyfarchiadau.

Traws-gwlad yn darfod ond rasio mynydd yn cychwyn.

Daeth y tymor rhedeg traws-gwlad i ben yng Nghroesoswallt, a thimau Eryri yn ennill prif wobrau'r gynghrair am y gaeaf. Ymhlith yr enillwyr roedd Jenny Heming (Llanberis) yn ail ferch dros 40 oed, Maggie Oliver (Dinorwig) yn drydedd ferch dros 60 oed, ac Arwel Lewis (Bethel) yn ail dros 50 oed, Enillodd Maggie Oliver wobwr ychwanegol hefyd, sef Tlws Bebington, a gyflwynwyd iddi ar ran y Gynghrair Traws-gwlad gyda chanmoliaeth uchel am ei gwaith dros y blynyddoedd yn hybu rhedeg traws-gwlad ac yn annog aelodau Clwb Rhedwyr Eryri i gymryd rhan yn y gamp.

Yn Rhug, Corwen, cynhaliwyd pencampwriaethau traws-gwlad Gogledd Cymru,

ac unwaith eto, roedd cynrychiolaeth dda o'r fro yn amlwg. Daeth Alun Vaughan Llanberis gynt, ond bellach o'r Felinheli yn ail yn y brif ras, ac Arwel Lewsi yn gyntaf dros 50 oed. Roedd Jenny Heming yn ail ferch dros 40 oed. Ymhlith aelodau eraill a fu'n helpu'r Clwb i gipio'r prif wobrau roedd Matt Ward (Penisa'rwaun gynt) a Bridget Ripley (Fachwen).

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd y tymor rasio mynyddoedd eisoes wedi cychwyn. Ras Moel-y-ci o Dregarth oedd y gyntaf yn y calendr, a daeth dros gant a hanner o redwyr yno i gystadlu. Bydd gwybodaeth am y gyfres rasys nos Fawrth, fydd yn cychwyn fis Ebrill, yn cael eu cyhoeddi yn y rhifyn nesaf.

**ECO'r
Wyddfa**


**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

Chwaraeon

Pencampwr Gogledd Cymru.

Ddiwedd Ionawr ar diroedd Stad Rhug ger Corwen cynhaliwyd Pencampwriaethau Traws-gwlad Gogledd Cymru. Roedd nifer helaeth o redwyr yn cystadlu, a chryn dipyn o oedolion o'r fro. Ond bachgen o Ysgol Gynradd Llanrug oedd yr unig un i ddod a gwobr yn ol i'r ardal.

Daeth Kieran Forrest o Geunant yn gyntaf yn y gystadleuaeth i fechgyn dan 11 oed. Mae'n athletwr naturiol, ac yn aelod o Glwb Trac Menai. Mae eisoes wedi ennill nifer o wobrau yn y maes, gan gynnwys pencampwriaethau traws-gwlad yr Urdd. Dyma enw i'w gadw mewn cof ar gyfer y dyfodol.



Josh Robinson

Y mae Josh Robinson, sy'n hanu o Geunant, yn gwneud enw da cenedlaethol iddo hun ym myd Pel-Fasged. Neidiodd ein gohebydd i gael sgwrs gyda fo.

Pryd wnest di ddechrau chwarae pel fasged?

Yr oeddwn yn 12 oed, newydd ddechrau ym Mrynrefail, a chwarae am y tro cyntaf yn ystod gwrs ymarfer corff

Ac o hynny?

Aeth criw o'r ysgol i chwarae mewn twrnamaint yng Nghaernarfon, ac fe gynigiodd Mr Sion Parry, hyfforddwr tem Eryri, i mi ymuno gyda charfan Eryri.

Oes 'na lawer o ymarfer?

Wel am flwyddyn rown i'n mynd i ganolfan Maesglas ym Mangor yn unig, ond fel mae pethau wedi datblygu a pob wythnos rwan dwi'n ymarfer ym Maesglas Bangor, Canolfan Caergybi ac Ysgol David Hughes ym Mhorthaethwy. Ond yn awr yn mynd i Ganolfan Caernarfon ar nos Wener. Dwi'n lwcus fod fy nheulu yn gefnogol, yn enwedig fy nhad sy'n gyrru fi i bob ymarfer a gem. Mae fy nhad, gyda llaw, wedi chwarae pel-fasged dros Gymru hefyd.

Rwyd yn dal i chwarae i dem Eryri?

Ydw, yng nghynghrair Arfordir Gogledd Cymru ac yn gorfod teithio i dre'r Fflint bob pythefnos i chwarae'r gemau. Ar hyn o bryd mae'r tem yn 2ail ac rwy'n chwarae i'r timau dan 18.

Ac yn ystod un o'r gemau?

Wel, fe welodd Hyfforddwr Cymru un o'r sesiynau ymarfer a chefais fy ngwahodd i Ddyffryn Rhondda ar gyfer y treialon.

Ac o hynny?

Wel dwi di gael fy newis yn un o bymtheg aelod o sgwad Cymru, a'r haf nesaf yn teithio i Andorra a San Marino i gynrychioli Cymru mewn twrnamaint pel-fasged.